

Rhif Cofrestru'r Cwmni: 06249902

Rhif Cofrestru'r Elusen: 1124473

# Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

(Cwmni cyfyngedig drwy warant)

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

ar gyfer y Flwyddyn yn Gorffen 31 Mawrth2020

Mitchell Meredith Limited  
Cyfrifwyr Siartredig  
Canolfan Busnes Orbit  
Parc Busnes Rhydear  
Merthyr Tudful  
Morgannwg Ganol  
CF48 1DL

# Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

## Cynnwys

Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	1 i 17
Adroddiad Arholwr Annibynnol	18 i 19
Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol	20
Mantolen Cyfunol	21
Mantolen	22
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	23 i 38

# Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

## Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Mae'r ymddiriedolwyr, sy'n gyfarwyddwyr at ddibenion cyfraith cwmni, yn cyflwyno'r adroddiad blynyddol ynghyd â datganiadau ariannol y cwmni elusennol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020.

### Nodau a gweithgareddau

#### *Nod ac amcanion*

Datblygu addysg a gwybodaeth gyffredinol y gymuned, drwy sefydlu a chynnal canolfan er mwyn annog astudiaeth a defnydd o'r iaith Gymraeg, gyda darpariaeth o ddarlithoedd, grwpiau trafod, a gweithgareddau celfyddydol drwy gyfrwng yr iaith honno.

#### Crynodeb Gweithredol

Mae Menter Iaith Merthyr Tudful yn ganolbwynt i ddatblygiad y Gymraeg trwy weithrediad Canolfan Soar ac integreiddiad y Gymraeg i'r gymuned leol. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu gweledigaeth ac amcanion y Fenter dros y flwyddyn nesaf.

Amcan strategol Menter Iaith Merthyr Tudful yw cefnogi cyflawniad strategaeth Gymraeg Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr; trwy gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Gwneir hyn drwy gyflawni targedau a osodwyd mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru gyda chefnogaeth Rhwydwaith Mentrau Iaith ledled Cymru.

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw Creu Cymru yr ydym oll am fyw ynddi heddiw, ac yn y dyfodol sy'n mynd law yn llaw â Strategaeth y Gymraeg. Yn ganolog i ethos ein sefydliad yw bod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg yn ffynnu ym Merthyr Tudful.

#### Cyflwyniad Cryno:

Mae Menter Iaith Merthyr Tudful yn gweithredu fel rhan o rwydwaith o bartneriaid Cymraeg sydd yn gwasanaethu'r ardal gan gynnwys Dysgu Cymraeg Morganwg (CiO), Urdd Gobaith Cymru a Mudiad Meithrin a Chymraeg i Blant. Mae'r Fenter yn aml yn cyfeirio unigolion a sefydliadau at y partneriaid eraill a chaiff ei hystyried fel y 'glud' sydd yn gwneud i'r Rhwydwaith weithredu'n llwyddiannus yn ein cymuned. Mae sefydlu Canolfan Soar fel cartref i bartneriaid Cymraeg yng nghanol tref Merthyr wedi bod yn allweddol i gydweithrediad ein sefydliadau wrth gyflawni Strategaethau Llywodraeth Cymru ers 2011.

Mae Menter Iaith Merthyr Tudful yn gweithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth eang o sefydliadau cymunedol, celfyddydol a llesiant i gyrraedd cynulleidfaoedd a chymunedau newydd. Ymdrechwn at ymateb i'n cymuned leol a myfyrio ami.

#### Cyd-destun.

Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw un o'r lleiaf yng Nghymru. Hen ardal ddiwydiannol yw hi ac er mor gryf yw'r rhwydweithiau cymdogol a'r ymdeimlad o berthyn, mae ei phoblogaeth yn dal i ddioddef sgil effeithiau difflaniad y diwydiannau mawr traddodiadol. Mae lefelau diweithdra yma gyda'r uchaf yng Nghymru a dyma'r ardal fwyaf ddifreintiedig yng Nghymru yn ôl ffigurau'r Llywodraeth. Felly mae heriau sylfaenol i'r awdurdod lleol o ran iechyd, lles, cyflogaeth a sgiliau pobl yr ardal. Cafodd Menter Iaith Merthyr Tudful ei sefydlu yn 2003 ar ôl blynyddoedd o weithgaredd gwirfoddol yn lleol. Nod y Fenter Iaith yw ehangu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn yr ardal drwy feithrin cyfleoedd a gwasanaethau i drigolion y sir ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau lleol.

# Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

## Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Cyd-destun Cyfnod ers Cofid-19

Merthyr Tudful yw un o'r ardaloedd sydd wedi cael ei heffeithio fwyaf gan y Coronafeirws gyda chanolfannau profi ledled y sir a chanrannau heintus uchaf Cymru ar adegau. Fel sefydliad sydd wedi gwreiddio yn ein cymuned, mae angen i ni gefnogi adfywiad ein hardal a gweithio mewn ffyrdd gwahanol er mwyn goresgyn y cyfnod anodd hwn.

Mae'r cyfnod clo wedi dod â chyfleoedd yn ogystal â rhwystrau i'n sefydliad. Rydym wedi cael amser i feddwl yn wahanol am beth sy'n bwysig i ni. Trwy fod yn rhan o drafodaethau cenedlaethol am y Gymraeg a'r Celfyddydau yng Nghymru rydym wedi ffocysu ar y meysydd celfyddydol a threftadaeth fel ffordd o gyflawni ein huchelgais o gyrraedd a chefnogi ein cymuned i ffynnu.

### ***Budd y cyhoedd***

Mae gweithgareddau elusennol yr elusen wedi cyfrannu at dwf yn y defnydd o'r iaith Gymraeg ym Merthyr, codi hyder a hunan-barch ac ehangu gorpwlion trigolion Merthyr.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydsynio â gofynion Adran 4 Deddf Elusennau 2011 o ran talu'r sylw dyledus at ganllawiau buddion cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau dros Gymru a Lloegr.

### **Cyflawniadau a Pherfformiadau**

Uchafbwyntiau/Digwyddiadau:

Gweithgareddau i'r teulu

Diwrnod Hwyl Soar 20/7/2019 20/07/2019

Cynhaliwyd Diwrnod Hwyl i deuluoedd yng Nghanolfan Soar. Roedd y diwrnod yn gyfle da i'n partneriaid a ninnau gyrraedd llawer o deuluoedd. Fel rhan o'r diwrnod, roedd ardal chwarae meddal a chelf a chreffft yn Neuadd Canolfan Soar. Roedd yr ardal celf a chreffft hefyd yn gyfle i ni barhau gyda'n prosiect 'Cymru a'r Byd' sy'n cael ei gynnal ar y cyd gyda Phentref Byd-eang Merthyr Tudful.

Yn ogystal â hyn, roeddem ni wedi cydweithio â Siop Llyfrau'r Enfys i greu ardal chwarae a stori i blant yn y siop, yn ogystal ag ardal Lego ac hyd yn oed ymweliad gan Lego Batman. Roedd hefyd ymweliad gan gymeriad y Mentrau Iaith – Magi Ann.

Yn ychwanegu at y bwrlwm, roedd gyda ni 5 o stondinau – Dysgu Cymraeg, Cymraeg i blant, Mudiad Meithrin, Merched y Wawr, Y Clochdar (Papur Bro lleol). Roedd hyn yn gyfle i bobl sôn fwy am waith eu mudiadau a'r cyfleoedd sydd ar gael yn lleol, i bob o bob oed.

Roedd Dysgu Cymraeg wedi cael 6 enw ar gyfer eu gwersi newydd a fydd yn dechrau ym mis Medi. Hefyd, nododd sawl rhiant bod diddordeb gyda nhw mewn mynychu sesiynau Cymraeg i blant ym mis Medi.

Diwrnod Hwyl Pentrebach – 02/08/2019

Ddydd Gwener 2 Awst, roedd gyda ni bresenoldeb mewn diwrnod hwyl ym Mhentrebach. Roeddem yn hybu a hyrwyddo digwyddiadau, ac yn rhannu canllawiau addysg Gymraeg. Roeddem hefyd yn cynnig gweithgaredd paentio i'r plant.

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

### Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Diwrnod Hwyl Soar - 05/10/2019

Fel rhan o'r Wyl Werin Hydref, cynhaliwyd Diwrnod Hwyl yng Nghanolfan Soar. Roedd yna ardal chwarae plant, gan gynnwys celf a chrefft, ac roedd hefyd amser stori yn siop y ganolfan. Yn ogystal â hyn, roedd gwybodaeth am addysg Gymraeg a darpariaethau i blant yn yr ardal leol. Roedd yn bwysig cael gweithgareddau i blant a theluoedd fel rhan o'r diwrnod.

Dygwyl y Meirw - 31/10/2019

Ar ddiwrnod Calan Gaeaf, cynhaliwyd sioe bypedau gan y cwmni 'Seren Ddu a Mwnci'. Roedd y sioe o safon uchel iawn ac roedd hi'n gyfle gwych i blant ddysgu mwynhau gweithgaredd Calan Gaeaf trwy gyfrwng y Gymraeg, tu allan i'r ysgol ac yn ystod hanner tymor. Yn ogystal â hyn cynhaliwyd gweithdy creu pypedau i'r plant ar ôl y sioe.

Diwrnod o Hwyl Nadolig – 5/12/2019

Ddydd Sadwrn 7 Rhagfyr yn dilyn dyddiau Nadoligaidd gydag ysgolion a meithrinfeydd, cynhaliwyd Diwrnod Nadoligaidd i'r Teulu yng Nghanolfan Soar. Roedd hyn yn gyfle i deuluoedd fwynhau sesiynau Nadoligaidd, ymweld â Sîon Corn a gwyllo sioe newydd sbon yn y theatr. Roedd y diwrnod yn gyfle gwych i rieni di-Gymraeg fwynhau hwyl yr ŵyl gyda'u plant mewn amgylchedd Cymraeg. Roedd yn gyfle hefyd i'n Clwb Drama gael y profiad o berfformio ar lwyfan mewn cynhyrchiad theatr.

HWYL Hanner Tymor - 21/02/2020

Fel rhan o'n cyfres o ddiwrnodau hwyl mewn partneriaeth â Chwmni Blodau Haul, cynhaliwyd prynhawn o 'HWYL Hanner Tymor' yn y ganolfan, ddydd Gwener 21 o Chwefror. Fel rhan o'r prynhawn, roedd cyfle i'r plant greu celf a chrefft wedi ei seilio ar flodau haul, mwynhau amser stori, a chwarae yn ein hardal chwarae meddal. Roedd pob plentyn hefyd wedi derbyn amlen yn llawn hadau blodau haul iddyn nhw allu tyfu blodau haul yn yr ardd. Canolbwynt y prynhawn oedd y sioe 'Blodyn Haul' yn y theatr. Roedd pawb wedi mwynhau mas draw yn y sioe, ac roedd yn wych gweld theluoedd a wynebau newydd yn mwynhau adloniant Cymraeg yn ystod eu hanner tymor.

Sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith

Esgob Hedley

Dros ddau diwrnod – 4 a 5 Medi, cynhaliwyd 6 sesiwn gyda 6 grŵp, o ddisgyblion blwyddyn 7 a 8. Roedd y cyflwyniadau a'r cwis yn gyfle da i allu dod i adnabod y disgyblion newydd a'r staff. Roedd hefyd yn gyfle i gasglu syniadau'r disgyblion ynglŷn a sut y bydd mod i ni eu helpu yn y dyfodol, drwy gynnig gweithgareddau a digwyddiadau. O ganlyniad i'r cyflwyniadau, mae'n debygol y bydd clwb cinio yn cael ei sefydlu yn yr ysgol.

Pen y Dre

Ddydd Mawrth 24 Medi, cynhaliwyd 5 sesiwn yn Ysgol Uwchradd Pen Y Dre. Erbyn diwedd y dydd, roedd y cyflwyniad wedi cyrraedd pob disgybl ym mlwyddyn 7.

Mae Pen Y Dre yn ysgol cyfrwng Saesneg gydag adran Gymraeg gefnogol iawn, ac rydym yn edrych ymlaen at drefnu mwy o ddiwyddiadau gyda'r ysgol gan sicrhau bod ein partneriaid yn rhan o'r gwaith.

Mae'r cyflwyniadau hyn hefyd yn cyfrannu at ein gwaith o weithredu'n lleol yn ardal y Gyrrnos.

Clybiau Cymraeg

Clwb Cymraeg Afon Taf

Yn ystod y chwarter hwn, dechreuwyd Clwb Cymraeg yn Ysgol Uwchradd Afon Taf. Mae'r clwb ar agor i ddisgyblion blwyddyn 7,8,a 9. Mae'r clwb yn gyfle i'r disgyblion ymarfer siarad Cymraeg yn eu hamser eu hunain, drwy chwarae gemau a chymryd rhan mewn gweithgareddau fel cwisiau ac yn y blaen.

# Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

## Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Clwb Ysgrifennu creadigol Pen-y-dre

Mae'r swyddog ieuencid wedi bod yn gweithio gyda grŵp o ddisgyblion blwyddyn 8 i'w helpu gydag ysgrifennu creadigol ar gyfer yr Eisteddfod. Mae'r sesiynau wythnosol yn eu cynorthwyo trwy gyflwyno geirfa newydd mewn ffordd hwylus.

Digwyddiadau Unigol

Diwrnod A.B.CH Ysgol Gyfun Rhydywaun - 28/06/2019

Ddydd Gwener 28 Mehefin, cynhaliwyd y diwrnod uchod yn Ysgol Gyfun Rhydywaun. Roedd yr athrawon yn awyddus i ni gynnal gweithgareddau a gemau, yn hytrach na chyflwyniadau, gan bod hi bron yn ddiwedd tymor. Felly, ar y cyd gyda'r Urdd, trefnom ni sesiynau criced cyflym a Rownderi. Yn ystod y diwrnod, cynhaliwyd 6 sesiwn gyda gwahanol grwpiau o flwyddyn 9 a 10. Roedd y sesiynau yn gyfle i'r disgyblion defnyddio eu Cymraeg mewn ffordd naturiol, a mewn awyrgylch sy'n wahanol i awyrgylch yr ystafell ddosbarth. Roedd hefyd yn gyfle iddyn nhw weld bod y Gymraeg yn gallu bod yn iaith hamdden a chwaraeon, hefyd.

Yn ogystal, roedd y diwrnod yn adnodd da i ni gan ei fod yn gyfle i greu perthnasau a chysylltiadau ar gyfer y flwyddyn academaidd i ddod.

Dyddiau Nadolig i Ysgolion a Meithrinfeydd - 5/12/2019

Ddydd Iau 5ed a dydd Gwener 6ed Rhagfyr, daeth Ysgol Santes Tudful a Chylch Meithrin Soar i Ganolfan Soar i ymuno yn hwyl y Nadolig. Mwynhaodd y plant ddigwyddiadau amrywiol fel celf a chreffft, amser stori ac ymweld â Siôn Corn. Ar ôl y sesiynau, mwynhaodd pawb Sioe Nadoligaidd yn y theatr, a gynhyrchwyd gan gwmni Cymraeg o Ferthyr. Roedd y dyddiau'n gyfle gwych i blant yr ardal fwynhau hwyl y Nadolig trwy gyfrwng y Gymraeg.

Sioe Pryd Mae'r Haf – 6/02/2020 – 7/02/2020

Fel rhan o'n partneriaeth gyda chwmmi cynhyrchu, Criw Brwd, roeddem yn falch iawn o gael croesawu eu drama newydd sbon i'r theatr ddechrau mis Chwefror. Roedd 3 sioe wedi eu perfformio yn y theatr dros dau ddiwrnod, ac roedd yn wych gallu cyflwyno drama oedd wedi ei seilio ar fywyd yn Y Cymoedd, i'r gynulleidfa leol. Roedd hi hefyd yn fraint cynnal rhag-ddangosiad o'r sioe i ysgolion lleol, a hefyd i gynnal noson y wasg yn y ganolfan. Roedd y bartneriaeth newydd yn llwyddiant mawr, ac rydym yn edrych ymlaen at groesawu Criw Brwd a'r Theatr Genedlaethol yn ôl yn y dyfodol.

Diwrnod Cymraeg Ysgol Uwchradd Afon Taf - 3/03/2020

Ddydd Mawrth 3 Mawrth, cynhaliwyd diwrnod o gyfoethogi'r Gymraeg ar gyfer disgyblion cynradd a fydd yn mynychu Ysgol Uwchradd Afon Taf ym mis Medi. Roedd y diwrnod yn gyfle i ddisgyblion cynradd ddod at ei gilydd a defnyddio eu Cymraeg mewn amrywiaeth o weithgareddau, o goginio i hanes. Roedd y fenter yn gyfrifol am gydlynu gemau yn y Neuadd, lle roedd rhaid i ddisgyblion ddefnyddio eu Cymraeg er mwyn ennill gemau. Roedd hyn y gyfle iddyn nhw ymarfer eu Cymraeg mewn modd hwylus. Rydym yn gobeithio y bydd hwn yn ddigwyddiad blynyddol ar gyfer yr ysgolion cynradd.

Gwaith gyda Choleg Merthyr

Wythnos y Glas - 18/09/2019

Cynhaliwyd stonidin yn Ffair y Glas y coleg ddydd Mercher 18 Medi. Roedd y stonidin yn gyfle i ni sgwrsio gyda myfyrwyr a staff, Cymraeg a di-Gymraeg. Roedd dipyn o ddiddordeb mewn digwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg yn yr ardal ac yn y ganolfan a'r theatr.

Fel rhan o'r stonidin, roeddem yn rhannu gwybodaeth am wahanol agweddau ar y Gymraeg, gan gynnwys gwybodaeth am ein partneriaid – Cymraeg i Blant, Mudiad Meithrin, Dysgu Cymraeg, a'r Urdd.

Roedd diddordeb hefyd gan fyfyrwyr Cymraeg mewn bod yn llysgenhadon y Gymraeg yn y coleg.

Bydd hefyd rhywbeth yn cael ei drefnu'n fisol yn Soar a fydd yn benodol ar gyfer myfyrwyr Cymraeg a dysgwyr.

## **Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful**

### **Adroddiad yr Ymddiriedolwyr**

Ffair Gwirfoddoli - 25/09/2019

Cynhaliwyd stondin gwybodaeth i ddarparu gwirfoddolwyr yn y coleg ddydd Mercher 25 Medi. Roedd y stondin yn gyfle i ni hyrwyddo cyfleoedd i fyfyrwyr Cymraeg a dysgwyr, i wirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg, wrth gynorthwyo gydag amrywiaeth o wahanol dasgau. Roedd dipyn o ddiddordeb yn y cyfleoedd a roeddem ni wedi llwyddo i gasglu 5 o enwau, ynghyd â sgiliau penodol.

Roedd y stondin hefyd yn gyfle i ni hyrwyddo gwaith y fenter a'r ganolfan, unwaith eto.

Clybiau Brecwast Cymraeg

Yn ystod y chwarter tri, cynhaliwyd y clwb brecwast Cymraeg cyntaf i fyfyrwyr sy'n astudio Cymraeg yn y coleg. Mae 3 wedi cael eu cynnal yn ystod y chwarter, gyda hyd at 15 o fyfyrwyr yn mynychu pob un. Mae'r sesiynau'n rhoi cyfle i'r myfyrwyr ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg mewn amgylchedd naturiol a chymdeithasol.

Sgwrs a chàn gyda myfyrwyr ail iaith - 25/11/2019

Ddydd Llun 25 Tachwedd, aeth ein swyddog datblygu draw i Goleg Merthyr, ynghyd â Lleuven Steffan, i siarad am y Gymraeg a'r cyfleoedd sydd gan y myfyrwyr i'w defnyddio yn yr ardal. Roedd y myfyrwyr hefyd wedi cael y cyfle i holi Lleuven am ei gyfra a'i chaneuon. Roedd y bore'n ddefnyddiol iawn i'r myfyrwyr ac yn help mawr fel rhan o'u modiwl 'Y Gymraeg yn y gymuned'

Diwrnod Santes Dwynwen – 23/01/2020

Ddydd Gwener 23 Ionawr, roeddem ni'n cydweithio gyda'r Urdd a Swyddog Cymraeg y coleg i gynnal dathliad Santes Dwynwen yn y coleg. Bwriad y gweithgaredd oedd hyrwyddo traddodiad Cymraeg i fyfyrwyr a staff y coleg. Trwy'r bore roeddem ni'n cynnal stondin yng nghanol cyntedd y coleg yn rhoi cacennau a chardiau Santes Dwynwen i staff a myfyrwyr. Roedd y cardiau (fel y gwelir yn y lluniau) wedi eu creu gan y fenter yn cynnig esboniad dwyieithog o stori Santes Dwynwen. Roedd y stondin yn gyfle i hyrwyddo'r traddodiad a hefyd hyrwyddo gwaith ehangach y fenter a'n partneriaid.

Dydd Miwsig Cymru – 6/02/2020

Yn ystod bore Dydd Miwsig Cymru, cynhaliwyd gig yng nghyntedd Coleg Merthyr Tudful. Trefnwyd y gig gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Choleg Merthyr. Roeddem ni wedi cefnogi gyda'r gwaith trefnu, ac ar y diwrnod, roedd gyda ni bresenoldeb yn y coleg, trwy gynnal stondin gyda nwyddau Dydd Miwsig Cymru a gwybodaeth amdanon ni, a'n partneriaid Cymraeg yn yr ardal. Roedd y digwyddiad yn gyfle gwych i staff a myfyrwyr y coleg glywed cerddoriaeth Gymraeg o safon yn eu gweithle. Yn ogystal â myfyrwyr a staff y coleg, roedd hefyd disgyblion o ysgolion uwchradd a chynradd yn bresennol. Roedd pawb wedi mwynhau gwledd o gerddoriaeth Gymraeg yn rhad ac am ddim.

Dydd Gŵyl Dewi – 2/03/2020

Er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn y coleg. Penderfynwyd ar y cyd gyda swyddog Cymraeg y coleg y dylai cynnal digwyddiad ar fore llun 2il o Fawrth er mwyn hyrwyddo Cymreictod ymhlith staff, myfyrwyr ac ymwelwyr. Roedd y digwyddiad yn gyfle gwych i bawb ymfalchïo mewn diwylliant Cymreig a Chymraeg yr ardal. Roedd perfformiadau gan Ysgol Santes Tudful a Delyth a Bethan McLean. Roedd hefyd areithiau gwych gan Y Maer a Dirprwy Comisiynydd y Gymraeg. Roedd picau ar y maen yn rhad ac am ddim, ac roeddem wedi paratoi cardiau Dydd Gŵyl Dewi a oedd yn esbonio'r chwedlau. Hefyd, ar y diwrnod, roedd canlyniadau'r gystadleuaeth i diwtoriaid wedi cael eu cyhoeddi. Roedd tiwtoriaid sy'n rhan o'r cynllun 'Cymraeg Iaith Gwaith' wedi cystadlu yn erbyn ei gilydd er mwyn dangos sut y maent yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gwersi. Roedd y gystadleuaeth yn agos iawn ac roedd pawb wedi dangos llawer o angerdd tuag at yr iaith. Roedd ein swyddog datblygu yn rhan o'r beirniaid allanol ar gyfer yr gystadleuaeth.

Digwyddiadau Cymunedol

Dydd y llyfr – 11/04/19

Fel y llynedd, i ddathlu Dydd y llyfr, trefnwyd Gŵyl Ledaenu'r Neges ym Merthyr. Eleni, cafwyd y dathliad mwyaf hyd yn hyn.

## **Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful**

### **Adroddiad yr Ymddiriedolwyr**

Fel y llynedd, roedd y ganolfan yn fwrlwm trwy'r dydd, gyda channoedd o blant yn mwynhau gweithdai amrywiol ac yn cael clywed y Gymraeg mewn amgylchedd naturiol. Roedd hyn yn gyfle i gyrraedd cannoedd o blant nad ydym fel arfer yn gallu eu cyrraedd yn hawdd.

Yn ogystal â'r holl fwrlwm yn y ganolfan, roedd y Gymraeg hefyd i'w gweld a'i chlywed, yng nghanol yr ŵyl ar Sgwâr Penderyn. Roedd stondin yn cael ei rhannu rhwng mudiadau Cymraeg ac wedi ei leoli yng nghanol yr Ŵyl. Roedd hyn yn gyfle gwych i hyrwyddo gwahanol agweddau ar y Gymraeg, yng nghanol y dref.

Fel rhan o'r ŵyl, cyfannodd sawl awdur Cymraeg, gan gynnwys, Eurig Salisbury, Mererid Hopwood a Lowri Haf Cooke. Sicrhawyd cyhoeddusrwydd i agweddau Cymraeg ar yr ŵyl, trwy hysbysebu'r digwyddiadau ar blatfformau'r Fenter.

Comedi Cymraeg – 27/04/19

Fel rhan o Ŵyl Gomed Merthyr, cynhaliwyd sioe gomedi Gymraeg yn Nghanolfan Soar, nos Sadwrn 27 Ebrill. Rhoddwyd llwyfan i Steffan Evans a sawl act newydd.

Cafwyd sylw da i'r noson a mynychodd nifer o bobl

Roedd y noson yn gyfle da i integreiddio'r Gymraeg mewn i Ŵyl leol a normaleiddio adloniant Cymraeg.

Parti Dathlu blwyddyn o Gaffi Soar –30/05/19

Cynhaliwyd parti i dathlu blwyddyn o Gaffi Soar yn y ganolfan. Roedd y noson yn gyfle i ddathlu ac i fwynhau llawer o dalent lleol yn perfformio trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd pob math o ddefnyddwyr y caffi yn y parti ac felly, roedd yn gyfle i bawb fwynhau a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ffanbarth Cymru v Croatia – 08/06/19

Cynhaliwyd ffanbarth ar gyfer y gem bêl-droed rhwng Cymru a Croatia. Roedd y diwrnod yn gyfle i bobl ddefnyddio eu Cymraeg yn y caffi wrth wylïo'r gêm yn y Gymraeg ar S4C. Roedd hyn yn gyfle i bobl na fyddai wedi gwylïo'r gem yn y Gymraeg, i wneud hynny am y tro cyntaf. Hefyd, dim ond yn y ganolfan, oedd modd gwylïo'r gêm yn y Gymraeg, yn y dref.

Sioe Y Brain / Kalagar – 21/06/19

Nos Wener 21 Mehefin, daeth y sioe uchod i ymweld â ni. Roedd y sioe'n ddwyieithog (Cymraeg a Thyrcceg), gyda mynediad Saesneg. Roedd yn braf gweld rhai wynebnewydd yn y gynulleidfa, ac yn arbennig rhai o'r grŵp ieuencid lleol, lle roedd y cwmni cynhyrchu wedi cynnal gweithdy yn arwain at y perfformiad.

Roedd y sioe yn gyfle i ddysgwyr herio eu Cymraeg wrth ddilyn y cyfieithiadau i'r Saesneg. Hefyd, i'r rhai nad oedd yn siarad Cymraeg na Thyrcceg, roedd yn gyfle i weld y Gymraeg ochr wrth ochr ag iaith arall, yn hytrach na'r Saesneg.

Clwb Brecwast Treharris a thaith gerdded - 18/05/19

Cynhaliwyd y clwb brecwast cyntaf yn yr ardal, gyda thaith gerdded yn ei ddilyn. Roedd hwn yn gyfle i bobl gymdeithasu a defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Roedd 15 yno, gan gynnwys 2 o blant gyda'u tad sy'n dysgu Cymraeg.

Noson Offerynnol - 23/05/19

Cynhaliwyd noson offerynnol yn Ysgol Bedd Llwynog, gyda grŵp o ddysgwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg. Roedd y noson yn gyfle i'r dysgwyr roi cynnig ar ddysgu sawl offeryn gwahanol. Roedd y noson hefyd yn gyfle i bawb ddefnyddio eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Yn ogystal, roedd un o'r dysgwyr wedi cael y cyfle i ddysgu offeryn i eraill, trwy gyfrwng y Gymraeg, am y tro cyntaf. Gobeithir y bydd y noson yn sbarduno rhai o'r grŵp i fynd ati i ddysgu offeryn newydd ac y bydd modd cynnal gwersi trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sir.

## **Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful**

### **Adroddiad yr Ymddiriedolwyr**

Digwyddiad creu masgiau – Gŵyl Pentref Byd Eang 22/06/19

Cydweithiom ni gyda threfnwyr yr ŵyl er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o'r diwrnod

Roedd y swyddog datblygu a'r swyddog ieuencid yn cynorthwyo gyda'r gweithdy

Sicrhawyd hefyd bod y Gymraeg yn rhan o'r marchnata ar gyfer y digwyddiad yn arwain at y diwrnod

Cynhaliwyd gweithdy arbennig ar y cyd gyda grŵp ieuencid lleol, lle roedd cyfle i bobl 'mapio Cymru a'r byd' trwy ddangos, yn weledol, y cysylltiadau rhwng Cymru a gwledydd ar draws y byd.

Gŵyl Pentref Byd Eang - 24/08/19

Cynhaliwyd Gŵyl Pentref Byd Eang ddydd Sadwrn 24 Awst, yng nghanol y dref. Roedd gyda ni stondin yn yr ŵyl, lle roeddem yn cynnig gwybodaeth am ein gwaith, Canolfan a Theatr Soar, addysg Gymraeg a digwyddiadau yn yr ardal. Roedd hefyd yn gyfle i bobl ychwanegu at ein prosiect 'Cymru a'r Byd'.

Fel rhan o'r ŵyl, roedd perfformiadau Cymraeg, gweithdy cyfrwng Cymraeg, a deunyddiau hyrwyddo Cymraeg. Roedd hefyd stondin gyda Dysgu Cymraeg Morgannwg.

Mae'r holl wybodaeth am yr ŵyl, ynghyd a lluniau a gwerthusiad, ar gael i'w gweld yn astudiaeth achos ein gwaith gyda'r Ŵyl.

Stondinau gwybodaeth – Merthyr v Abertawe - 06/07/19

Ddydd Sadwrn 6 Gorffennaf, cynhaliwyd stondin yn ystod gem gyfeillgar gyntaf y tymor, rhwng Merthyr ac Abertawe. Cynhaliwyd y stondin gyda Dysgu Cymraeg Morgannwg, gyda'r prif ffocws ar hyrwyddo'r prosiectws newydd, gyda thafleuni hefyd yn cael eu dosbarthu ar y giât.

Roedd cyfle hefyd i hyrwyddo'n digwyddiadau cymdeithasol ac i ddangos bod llawer o ddigwyddiadau a gweithgareddau'n cael eu trefnu yn yr ardal.

Digwyddiad Tyfu'n Wylt - 22/08/19

Fel rhan o ddigwyddiad 'Prosiect y Dynion' ar ystâd y Gyrmos, cynhaliwyd diwrnod hwyl i blant ar gaeau'r ysgol gynradd. Roedd stondinau, chwaraeon a gweithgareddau awyr agored.

Roedd y diwrnod yn gyfle gwych i ni hyrwyddo'r Gymraeg ar y Gyrmos ac i ddangos ein presenoldeb, mewn digwyddiad cymunedol iawn.

Cynhaliwyd stondin ar y cyd gyda Dysgu Cymraeg Morgannwg a'r Urdd. Roedd dipyn o ddiddordeb mewn gwersi Cymraeg, gyda sawl person yn mynd a phrosiectws.

Hefyd, cynhaliwyd gweithdy i'r bobl ifanc, yn gofyn iddyn nhw 'Beth mae Cymru'n ei olygu i chi?' Roedd hyn yn gyfle i bobl ifanc ddefnyddio unrhyw Gymraeg oedd gyda nhw.

Roedd hefyd gyda ni wybodaeth am ddigwyddiadau Cymraeg i bobl o bob oed, gan gynnwys llyfrynnau gan Mudiad Meithrin, a sesiynau gan Cymraeg i Blant.

Standin yn Ysbyty'r Tywysog Siarl – 30/08/19

Ddydd Gwener 30 Awst, cynhaliwyd stondin yn yr ysbyty ar y Gyrmos ar y cyd gyda Dysgu Cymraeg. Roedd y stondin yn gyfle arall i ni gael presenoldeb amlwg mewn cymuned sy'n rhan ganolog o gymuned ehangach y Gyrmos. Roeddem yn hyrwyddo gwaith ein hunain, digwyddiadau'r ganolfan a gwaith ein partneriaid, gyda ffocws penodol ar ddarpariaethau y blynyddoedd cynnar, megis gwaith Mudiad Meithrin a Chymraeg i Blant. Roeddem hefyd yn dosbarthu bathodynau a lanyards i staff yr ysbyty sy'n medru'r Gymraeg neu'n ei dysgu. Roedd yn wych gweld cymaint o ddiddordeb mewn addysg Gymraeg ac roedd Dysgu Cymraeg wedi cael 6 enw ar gyfer cyrsiau'r tymor newydd.

## **Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful**

### **Adroddiad yr Ymddiriedolwyr**

Noson gydag Ifor ap Glyn - 05/09/2019

Nos Iau 5 Medi, cynhaliwyd noson gyda chyn fardd cenedlaethol Cymru – Ifor ap Glyn. Hefyd, yn rhan o'r noson, roedd y bardd ifanc lleol, Morgan Owen ac roedd darlleniadau gan sawl bardd lleol hefyd, gan gynnwys dysgwyr.

Don Giovanni – 12/09/2019

Nos Iau 12 Medi, cynhaliwyd cynhyrchiad Opra Cymru o Don Giovanni yn y theatr. Roedd hi'n noson dda iawn ac roedd hi'n wych cael gweld cymaint o wynebau newydd yn mwynhau theatr Cymraeg.

Gwyl Werin-Hydref – 4 a 5 o Hydref

Sefydlwyd yr ŵyl ym mis Ebrill 2019 ar cyd rhwng Menter Iaith Merthyr Tudful a Bagad Pibau Morgannwg. Roedd y syniad am yr ŵyl wedi bodoli ers dipyn gan bod criw y Bagad wedi bod yn edrych am gyfle i gynnal gŵyl werin o'r fath ers cynnal un boblogaidd iawn ym Mhontsticill nol yn 2012. Hefyd, fel rhan o'n gwaith ehangach gyda'r celfyddydau ym Merthyr, rydym yn ceisio gwneud Merthyr yn gartref i'r sin werin gyfoes yng Nghymru.

Felly, ar ôl i grant o £5000 o bunnoedd ddod ar gael gan Fentrau Iaith Cymru, roedd hi'n dewis naturiol i ni gydweithio gyda'r Bagad er mwyn cyflawni ein cyd-uchelgais.

Cynhaliwyd yr ŵyl dros ddau ddiwrnod o'r 4ydd –5ed o fis Hydref, yng Nghanolfan a Theatr Soar. Roedd y sesiwn ar y nos Wener wedi ei chynnal yn y caffi o 19:00-22:00. Wedyn, ar y dydd Sadwrn, roedd gweithdai offerynnau gwerin trwy'r dydd, ynghyd â diwrnod o hwyl i blant, gyda stondinau gwybodaeth gan gymdeithasau Cymraeg lleol, gyda chyngerdd y nos yn dechrau am 15:30 yn y theatr. Felly, roedd y ganolfan a theatr yn fwrlwm trwy gydol y ddau ddiwrnod gyda llawer o wynebau newydd.

Gig Lleuwen, Eadyth, Kizzy Crawford a The Marcellas – 18/10/2019

Nos Wener 18 Hydref, cynhaliwyd gig gyda Lleuwen, Eadyth, Kizzy Crawford a The Marcellas. Roedd y gig yn gyfle i roi llwyfan i artistiaid lleol sy'n perfformio yn y Gymraeg. Roedd hi'n wych gweld pobl o bob oed yn mwynhau'r gig, gan gynnwys criw ail iaith Coleg Merthyr.

Sioe Gadael Tir - 16/11/2019

Nos Sadwrn 16 Tachwedd, cynhaliwyd sioe 'Gadael Tir' yn y theatr. Roedd y sioe'n ddiddorol iawn ac yn gyfle i ddysgu mwy am hanes protestio a chanu gwerin yng Nghymru. Roedd y gynulleidfa'n cynnwys siaradwyr rhugl, dysgwyr a phobl di-Gymraeg.

Lansiad cyfrol Morgan Owen - 16/11/2019

Ddydd Sadwrn 16 Tachwedd, roeddem yn falch iawn o gael croesawu'r bardd ifanc, lleol, Morgan Owen ar gyfer lansiad ei gyfrol newydd. Roedd yn wych gweld wynebau newydd yn y ganolfan, gan gynnwys rhai lleol a rhai o ardaloedd eraill yng Nghymru. Roed y digwyddiad y gyfle gwych i ni werthfawrogi gwaith gan fardd mor dalentog, o Ferthyr Tudful.

Sesiwn Werin Soar 1 - 06/12/2019

Yn dilyn llwyddiant yr Ŵyl Werin, a'r adborth a dderbyniwyd, trefnwyd y sesiwn werin cyntaf yng Nghaffi Soar ar nos Wener 6 o Ragfyr. Roedd y noson yn hwyliog iawn ac yn gyfle gwych i bobl yr ardal fwynhau diwylliant gwerin Cymru. Bydd y sesiwn nesaf yn cael ei threfnu yn y flwyddyn newydd.

Parti Nadolig Soar – 12/12/2019

Cynhaliwyd noson yng Nghanolfan Soar i ddathlu diwedd y tymor i ddysgwyr Cymraeg, ynghyd â'r Nadolig. Roedd amrywiaeth eang o bobl yno, gan gynnwys, dysgwyr newydd, dysgwyr profiadol, siaradwyr rhugl, a ffrindiau a theulu Soar. Cafwyd noson llawn hwyl, gyda gweithgareddau'n cynnwys; bingo geiriau, cwis, adloniant gan bobl leol, a chanu carolau.

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

### Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Noson Cyri a Chariad - 23/01/2020

Nos Iau 23 Ionawr, cynhaliwyd noson i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen yng Nghanolfan Soar. Roedd y noson yn gyfle gwych i'r gymuned Gymraeg ddod at ei gilydd i ddathlu un o draddodiadau Cymru. Roedd hefyd yn gyfle i ddysgwyr a siaradwyr Gymraeg newydd, ddysgu mwy am draddodiad pwysig. Ar y noson, cafwyd cwis am chwedl Dwynwen, sesiwn yn adrodd y chwedl gan un o'n gwirfoddolwyr, ac roedd y noson wedi dod i ben gyda sesiwn canu Gymraeg. Roedd y noson hefyd yn gyfle i'n siop Gymraeg werthu anrhegion a chardiau ar gyfer yr ŵyl.

Noson Lansio cyfrol Karen Owen – 30/01/20

Nos Iau 30 Ionawr, cynhaliwyd noson yng nghwmni Karen Owen, er mwyn lansio ei chyfrol newydd, 'Dedwydd a Diriaid'. Hefyd yn rhan o'r noson, roedd grŵp barddonol lleol, 'Y Beirdd Cochion'. Roedd y noson yn gyfle gwych i bobl leol glywed un o feirdd mwyaf poblogaidd Cymru. Hefyd, gan fod y Beirdd Cochion yn rhan o'r noson, roedd hefyd yn gyfle da i bobl ddi-Gymraeg glywed barddoniaeth Gymraeg o safon.

Sesiwn Werin Dydd Miwsig Cymru - 07/02/2020

Er mwyn cyd fynd â dathliadau Dydd Miwsig Cymru, penderfynwyd rhyngom ni a'r trefnwyr gwirfoddol y dylid cynnal ein hail Sesiwn Werin ar nos Wener 7 o Chwefror. Unwaith eto, cafwyd noson hwyliog iawn yn y ganolfan, gyda chantorion yn dod at ei gilydd i ddangos y gorau o dalent lleol. Roedd y noson hefyd yn gyfle i bobl oedd wedi bod yn y theatr i wylïo'r sioe 'Pryd Mae'r Haf?' i fwynhau ychydig o gerddoriaeth werin ar ôl i'r sioe orffen.

Cawl a Chan – Dydd Gŵyl Dewi – 28/02/2020

Ddydd Gwener 28 o Chwefror, cynhaliwyd digwyddiad yng Nghanolfan Soar i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Roedd yn brynhawn llawn cerddoriaeth, canu, perfformio a chawl. Roedd y digwyddiad yn gyfle i ni groesawu Ysgol Uwchradd Pen-y-Dre i ymuno â ni yn y ganolfan, er mwyn perfformio rhai o'u darnau sydd wedi eu paratoi ar gyfer cyfnod yr Eisteddfodau. Roedd y digwyddiad yn gyfle i'r disgyblion ymarfer o flaen cynulleidfa Gymraeg, cyn dechrau ar yr Eisteddfodau. Yn ogystal â'r ysgol, roedd e hefyd yn gyfle i roi llwyfan i Grŵp Ukulele Soar i berfformio am y tro cyntaf. Trefnwyd y digwyddiad ar y cyd â Merched Y Wawr Merthyr Tudful.

Digwyddiadau Rheolaidd

Siarad Hapus

Mae Siarad Hapus wedi mynd o nerth i nerth eleni, gyda mwy o aelodau nag erioed. Mae grŵp yn dal i gael ei redeg gan wirfoddolwyr ac mae'r gwaith hyrwyddo yn cael ei wneud gan y Fenter.

Cymdeithas Soar

Oherwydd digwyddiadau eraill, dim ond un noson a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn ond, roedd y noson yn boblogaidd iawn ac yn adlewyrchiad o'r gwaith da sy'n cael ei wneud gan bwyllgor gwirfoddol y gymdeithas. Mae Cymdeithas Soar yn dal i fod yn grŵp hollbwysig i ddysgwyr yr ardal.

Clwb Drama Soar

Unwaith eto eleni, cynhaliwyd Clwb Drama Soar trwy gydol y flwyddyn. Roedd hyd at 20 o blant yn mynychu'r sesiynau'n wythnosol ac yn cael y cyfle i ymarfer drama a chael hwyl, trwy gyfrwng y Gymraeg. Cynhaliwyd y sesiynau gan Delyth Mclean a'r Swyddog Ieuenctid.

Clwb Iwcs Soar

Mae'r Clwb Ukulele, a sefydlwyd ym mis Hydref 2019, wedi mynd o nerth i nerth eleni, gyda dros ddeg o aelodau'n ymuno bob wythnos. Mae'r grŵp yn gyfle gwych i bobl o bob oed ddysgu sgiliau newydd, trwy gyfrwng y Gymraeg. Erbyn hyn, mae'r grŵp wedi perfformio o flaen cynulleidfa ddwywaith ac yn barod wedi cael eu bwcio ar gyfer digwyddiadau'r dyfodol.

# Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

## Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

### Sesiwn Werin Soar

Yn dilyn llwyddiant yr Wyl Werin Hydref, penderfynwyd y dylid mynd ati i gynnal sesiynau gwerin misol yn Nghaffi Soar, er mwyn cynnal a chadw'r bwrlwm o gwmpas y prosiect, rhwng y gwyliau mawr ym mis Hydref. Mae'r ddwy sesiwn sydd wedi eu trefnu hyd yn hyn wedi bod yn gyfle i bobl o bob oed ddod at ei gilydd a rhannu eu cerddoriaeth a'u talentau.

### Prosiect yr Organ

Gweithiodd tîm y prosiect, David Jones (DJ Associates), Dr William Reynolds, Anne England a Lisbeth McLean, i rheoli a gweithredu'r prosiect. Dechreuodd y gwaith i atgyweirio'r organ gan Martin Goetze & Dominic Gwynn Ltd. Cyflwynwyd adroddiadau cyson i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr am ddatblygiad y gwaith. Roeddem yn ffodus bod modd parhau i weithredu'r cynllun yn ystod cyfnodau clo Cofid. Penderfynwyd peidio â chfylogi Swyddog Treftadaeth ar hyn o bryd. Byddwn yn ail ystyried cyflogaeth wrth i gyfnod Cofid ddatblygu.

### Gwasanaeth Cyfieithu

Y prif ddigwyddiad yn ystod y cyfnod hwn fu sefydlu Lingo Soar Cyfyngedig. Rydym yn parhau i fod yn brysur ac yn defnyddio cyfieithwyr allanol yn achlysurol pan fydd gormod o waith yn cyrraedd ar yr un pryd. Mae'r trawstoriad o gwsmeriaid ddaw i'n rhan yn arddangos yr amrywiaeth eang o waith a gyfieithir gennym, a gellir ei gategoreiddio fel a ganlyn:

Corfforaethol: Cyngor Sir; Metro Bank; Comisiynydd y Gymraeg; VAMT

Elusennol: National Star; Click Sargent; Papyrus; Nolan Trust

Addysgiadol: Coleg Merthyr Tudful; Prifysgol De Cymru; Gweld Gwyddoniaeth/See Science; Ready Steady Music

Celfyddydol: Glasebury Arts; David Jones Associates; Theatr na nOg; Brecon Baroque Festival

Creadigol: Wayland Boulanger; Cyfreithiol: Emeritus Legal;

Gwleidyddol: Plaid Cymru;

Mae'r ffaith fod y cwmni'n un sy'n hyrwyddo dwyieithrwydd yn y gymuned yn amlygu'i hun o bryd i'w gilydd wrth i adnoddau a gyfieithwyd gennym ni gael eu defnyddio i hwyluso gweithgareddau Cymraeg ym Merthyr Tudful e.e. teithiau cerdded o amgylch y dref a gomisiynwyd gan y Cyngor Sir i hyrwyddo twristiaeth ac a ddefnyddiwyd gan Gymdeithas Soar.

Edrychwn ymlaen at ehangu'r gwasanaeth dros y flwyddyn sydd i ddod.

### Adolygiad ariannol

#### *Polisi ar gronfeydd wrth gefn*

Mae'r Ymddiriedolwyr wedi archwilio gofynion yr elusen ar gyfer cronfeydd wrth gefn yng ngoleuni'r prif risgiau i'w weithrediad. Sefydlodd bolisi y dylai cronfeydd anghyfyngedig nad ydynt wedi eu hymroi na'u buddsoddi fod gyfwerth â 6 mis o wariant i alluogi'r elusen i barhau i weithredu pe byddai cwmp annisgwyl mewn cyllid yn digwydd.

Ar ddyddiad y fantolen, cyfanswm cronfeydd rhydd wrth gefn yr Elusen oedd y ffigur negyddol o £26,335 (2019 - £11,026) Y mae'r Bwrdd wedi cymryd camau i adfer cyllid i gael cydbwysedd cadarnhaol.

#### *Prif ffynonellau cyllid*

Darparwyd cyllid £60,000 gan Lywodraeth Cymru am gyflogaeth y Prif Swyddog a'r Swyddog Maes. Derbyniwyd £7,500 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful am ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg i Blant a Phobl Ifanc.

# Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

## Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Cafodd y mwyafrif o incwm yr elusen ei gynhyrchu o'i gweithgareddau elusennol, sef amryw o grantiau a rhoddion.

Yn unol â SORP yr elusen mae grantiau a rhoddion yn cael eu cydnabod yn y Datganiad o Weithgaredd Ariannol yn y flwyddyn derbyn ac, os na chaiff ei wario, caiff ei ddwyn ymlaen yn y balans cronfeydd wrth gefn.

### ***Polisi ac amcanion buddsoddi***

Mae holl arian yr elusen i'w wario yn y tymor byr ac felly nid oes arian ar gael ar gyfer buddsoddiad tymor hir.

### **Cynlluniau ar gyfer cyfnodau'r dyfodol**

#### ***Nodau ac amcanion allweddol ar gyfer cyfnodau'r dyfodol***

Mae Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful yn parhau â'r gwaith o adnewyddu'r organ yn Theatr Soar ac maen nhw'n rhedeg amrywiaeth o brosiectau cymunedol i godi ymwybyddiaeth o hanes yr organ a hanes cerddoriaeth ym Merthyr Tudful a gaiff eu noddi gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod fod y cronfeydd rhydd wrth gefn yn isel ac maen nhw'n gweithio gyda'r Prif Weithredwr ar raglen i gynyddu'r incwm a gynhyrchir. Ymhlith y cynlluniau ceir cynllun 'Cyfeillion' a sefydlu is-gwmni masnachol newydd sef Lingo Soar Cyf. i alluogi'r Elusen i ddatblygu ac ehangu'r gwasanaethau cyfieithu.

#### Gwaith ers Cofid-19 Crynodeb

O ganlyniad i'r pandemig byd-eang a rheoliadau Llywodraeth San Steffan, bu rhaid cau drysau'r Ganolfan a Theatr Soar ar 17 Mawrth 2020. Gwnaeth ein dau swyddog sy'n cael eu hariannu gan grant Llywodraeth Cymru gario mlaen i weithio o adref. Bu'n rhaid rhoi 8 aelod o staff fynd ar gyfnod furlough o 18 Mawrth 2020 a cholli un aelod o staff. Ym mis Awst 2020 gwnaethon ni golli 2 aelod arall o staff. Erbyn hyn mae 6 aelod o staff ar Furlough Hyblyg, gyda 2 aelod yn gweithio eu horiau llawn.

Ers i'r cyfnod yma ddechrau mae pob elfen o'n gwaith cyfathrebu wedi digwydd yn ddigidol. Mae hyn wedi caniatáu i ni gadw mewn cysylltiad gyda'n cyfranogwyr a'r gymuned ehangach, ac i ddangos ein bod yno i'r gymuned. Mae hyn wedi arwain, yn naturiol, at gynnydd mawr yn ein presenoldeb ar-lein, wrth i ni rannu gwybodaeth ar ein platfformau fel: Facebook, Twitter ac Instagram. Oherwydd strwythur y platfform a sgiliau technegol ein cyfranogwyr, mae rhan fwyaf o'n cyfathrebu a gweithgareddau wedi digwydd trwy Facebook. Rydym hefyd wedi defnyddio platfformau fel MailChimp i aros mewn cysylltiad gyda'n defnyddwyr ehangach a rhaglenni fel Zoom er mwyn cynnal ein sesiynau siarad wythnosol. Yn ogystal â'n cyfathrebu digidol, rydym hefyd wedi aros mewn cysylltiad gyda phobl nad ydynt â mynediad at y we, trwy rannu gwybodaeth yn y papur bro lleol, sy'n cael ei bostio at bobl yn y gymuned. Mae'r rhan fwyaf o'n negeseuon a gweithgareddau wedi eu hanelu at ofalu am iechyd a lles ein cymuned. Mae hyn wedi gweld cynnydd yn y nifer o bobl sy'n ymgysylltu â'n platfformau cyfryngau cymdeithasol.

Rydym wedi llwyddo i gario 'mlaen i wasanaethu ein cymuned trwy gynnal digwyddiadau a gwasanaethau. Rydym hefyd wedi llwyddo gweithio'n hyblyg trwy ddarganfod ffyrdd newydd o gysylltu â datblygu cynlluniau i'r dyfodol.

#### Cefnogi Gwirfoddolwyr

Mae gwirfoddolwyr wedi'n cynorthwyo gyda gweithgareddau yn ystod y cyfnod yma: Sesiynau Iaith Arwyddion, Sesiynau Clwb Drama, Sesiynau Wener, Cwis Wythnosol, Cymryd rhan mewn Ras yr Iaith Hefyd, mae cyfarfodydd ein pwyllgor wedi digwydd yn wythnosol, trwy ddefnydd o'r rhaglen Zoom. Mae hyn wedi caniatáu i ni aros mewn cysylltiad cyson gyda'r pwyllgor i drafod anghenion staff a'n gwaith.

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

### Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

#### VAMT

Rydym wedi bod mewn cyswllt gyda VAMT er mwyn hyrwyddo ein gweithgareddau a gwasanaethau digidol i'r gymuned ehangach ac i sicrhau fod pawb yn y gymuned yn ymwybodol o beth rydym ni wedi bod yn ei gynnig yn ystod y cyfnod.

#### BWRDD IECHYD

Rydym wedi bod yn rhannu negeseuon ein bwrdd iechyd lleol ar ein platfformau digidol ac wedi gofyn i blant greu a rhannu negeseuon o ddiolch i'r holl staff oedd wedi bod yn gweithio yn ystod y cyfnod. Roeddem wedi gwneud hyn ar gyfer pob math o weithwyr allweddol hefyd.

#### AWDURDOD LLEOL

Yn ogystal â'n cyswllt cyson gyda swyddog Cymraeg y cyngor, rydym hefyd wedi bod yn cydweithio gyda'r cyngor i rannu eu holl wybodaeth berthnasol ar gyfer y gymuned, er mwyn sicrhau bod cyfarwyddiadau pwysig yn cyrraedd gymaint o bobl â phosib.

#### MENTRAU IAITH CYMRU

Rydym wedi derbyn hyfforddiant a chefnogaeth gyson gan Fentrau Iaith Cymru trwy gydol y cyfnod yma. Mae hynny wedi ein galluogi i weithio ar brosiectau ar y cyd, rhannu adnoddau a syniadau yn gyson.

#### Cefnogaeth Ariannol yn ystod y cyfnod

Rydym wedi bod yn ffodus i sicrhau cyllid gan Gyngor Celfyddyd Cymru (£35,000), Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol (£76,630), Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (£30,000). Mae'r grantiau wedi sicrhau dyfodol i'n sefydliad wrth gyfrannu at gostau rhedeg yr adeiladau ynghyd â phrosiectau a gwaith atgyweirio'r adeiladau.

#### Datblygiadau mewn gwaith Celfyddydau Cymraeg (Mawrth 2020 - Chwefror 2021)

Cafwyd grant Ymsefydlogi Cofid gan Gyngor Celfyddydau Cymru tuag at gostau rhedeg adeiladau'r Ganolfan a Theatr Soar a rhedeg prosiectau i ddatblygu yn ystod ac ar ôl y cyfnod yma.

Defnyddir y grant i:

- Dalu am gostau gweithredu adeiladau Canolfan a Theatr Soar.
- Gweithio gydag ymgynghorwyr i adnabod ffyrdd newydd o weithio yn ystod yr argyfwng iechyd sydd ohoni er mwyn sicrhau parhad i waith a phrosiectau arfaethedig y sefydliad yn y tymor byr a thymor canolig.
- Prynu offer TG er mwyn darlledu'n fyw a recordio perfformiadau/gigs bach wrth gychwyn yn ôl yn yr adeilad.
- Adeiladu cymhwysedd mewn i gynnyrch celfyddydol Theatr Soar trwy gomisiynu Angharad Lee, Cwmni Cynrychiadau Leeway i

a. Fentora Cwmni Blodau Haul sydd yn rhedeg ein Hysgol Berfformio, i ddatblygu ei cynnyrch i blant dros y we, sef sesiynau drama wythnosol i blant, ystod o adrannau a chreu perfformiadau digidol.

b. Cynnal Prosiect Theatr Gerddorol Cymraeg Digidol sydd yn ysbrydoli pobl ifanc i gyfranogi a pherfformio i adeiladu cynulleidfaoedd yn y tymor canolig a sicrhau cefnogaeth i brosiect mwy hir dymor.

Mae Prif Swyddog y Fenter wedi gweithio'n galed i rwydweithio a chyfrannu at sgysiau celfyddydol cenedlaethol sydd wedi amlygu eu hun o ganlyniad Cofid, gyda'r bwriad o godi proffil ac ymwybyddiaeth am bwysigrwydd gwaith cydweithredol yn y gymuned a'r effaith ar y Gymraeg.

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

### Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

Mentora gydag Elen as Robert, Mae'r Prif Swyddog wedi derbyn 4 sesiwn mentora erbyn hyn sydd yn helpu datblygu Strategaeth Gelfyddydol i'r Fenter ac adeiladu cynhwysedd mewn i waith y Theatr a'r Ganolfan.

Mae Cwmni Blodau Haul wedi derbyn 4 sesiwn Mentora gan Angharad Lee er mwyn datblygu gwaith celfyddydol gyda phlant clybiau drama'r Fenter.

Dechreuodd y gwaith o sefydlu Theatr Ieuentid Theatr Gerdd Academi Leeway yn ystod y chwarter yma. Mae'r bartneriaeth wedi ehangu i gynnwys Theatr Genedlaethol Cymru. Mae 18 o bobl ifanc oedran 14-25 wedi cael eu recriwtio er mwyn bod yn rhan o'r prosiect digidol cychwynnol.

Mae'r Prif Swyddog wedi chwarae rhan flaenllaw mewn rhwydweithiau sydd yn trafod y Celfyddydau yng Nghymru a'r ffordd all y Celfyddydau gefnogi cymunedau ar y ffordd mas o Cofid. Mae'r Rhwydweithiau yn cynnwys Beth Nesaf?Cymoedd, Beth Nesaf? Cymru a Chyngair Diwylliant Cymru. Mae Lis yn cynrychioli'r Gymraeg fel rhan o grŵp sydd yn rhoi Maniffesto i'r Celfyddydau yng Nghymru at ei gilydd. Mae Lis hefyd yn rhan o grŵp Strategol CDC sydd yn cwrdd gyda Chyngor Celfyddydau Cymru yn fisol i drafod materion sydd yn effeithio ar y sector ar hyn o bryd.

Mae'r Fenter yn arwain ar gynllun Consortiwm Theatr Cymraeg mewn cydweithrediad â Theatr Na nOg, Neuadd Les Ystradgynlais a Neuadd y Dref Maesteg. Mae'r Consortiwm wedi llwyddo i ddenu grant gan gynllun Cysylltu a Ffynnu Cyngor Celfyddydau Cymru.

Bu'r Fenter yn cydweithredu gyda Mentrau Iaith Cymru, Menter Iaith Rhondda Cynon Taf a PYST ar gynllun i sefydlu platfform digidol i arddangos a hyrwyddo gwaith creadigol ein cymunedau. Er wnaeth y cais sydd yn cael ei arwain gan PYST ddim llwyddo i sicrhau grant, bwriedir ail gyflwyno'r cais yn ystod y chwarter nesaf.

Bu'r Fenter yn cychwyn ar drafodaethau gyda Mentrau Iaith RCT, Caerffili, Bro Ogwr a Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy yn ogystal â sefydliadau celfyddydol, Tanio, Celf ar y Blaen a Chymuned Artis ar brosiect newydd i gefnogi defydd y Gymraeg mewn gwaith celfyddydol lleol.

Bu'r Fenter yn cychwyn ar drafodaethau i ddatblygu rhwydwaith celfyddydol ym Merthyr gyda Chyngor Merthyr, Coleg Merthyr ac Ymddiriedolaeth Hamdden y Sir.

Datblygiadau mewn Gwaith Treftadaeth (Mawrth 2020-Chwefror 2021)

Cafwyd arian tuag at gostau rhedeg yr adeiladau a buddsoddiad i baratoi'r adeiladau i ail agor. Rydym wedi glanhau'r adeiladau yn ddwfn a phrynu offer diogelu iechyd. Mae sawl prosiect cynnal a chadw wedi eu hariannu yn cynnwys grisiau'r mynediad, gwaith ar y toiledau, systemau awyru lawr llawr a thrwsio canopi sydd yn cysylltu'r adeiladau.

### Strwythur, Llywodraethu A Rheoli

#### *Natur y ddogfen lywodraethu*

Mae Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful yn gwmni elusennol cyfyngedig drwy warant, a ymgorfforwyd ar 16 Mai 2007 ac a gofrestrwyd fel elusen ar 11 Mehefin 2008.

Ar 23 Chwefror 2009, daeth yr elusen anghorfforedig, Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful, i ben ac fe'i trosglwyddwyd i'r Cwmni Elusennol hwn.

Sefydlwyd y cwmni dan Femorandwm Cymdeithasiad, a sefydlodd amcanion a grymoedd y cwmni elusennol a'i lywodraethu yn unol â'i Erthyglau Cymdeithasu.

## **Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful**

### **Adroddiad yr Ymddiriedolwyr**

#### ***Recriwtio a phenodi ymddiriedolwyr newydd***

Mae cyfarwyddwyr y cwmni hefyd yn ymddiriedolwyr yr elusen at ddibenion cyfraith elusennau a chyfeirir atynt yn Erthyglau Cymdeithasu'r cwmni fel ymddiriedolwyr.

- Bydd busnes yr Elusen yn cael ei reoli gan Fwrdd o gyfarwyddwyr a fydd yn atebol i'r aelodau
- Bydd traean o'r Bwrdd Cyfarwyddwyr, hynny yw'r Cyfarwyddwyr hynny a oeddent mewn swyddi yn ystod y flwyddyn flaenorol, yn cael eu hethol yn flynyddol gan aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Elusen. Bydd aelodau sy'n ymddeol yn gymwys i gael eu hail ethol heb enwebiad pellach. Os oes angen gwneud penderfyniad rhwng Cyfarwyddwyr sy'n ymddeol sydd â gwasanaeth cyfartal yna bwrrir coelbren.
- Bydd gwahoddiad am enwebiadau i fod yn Gyfarwyddwr yn cael eu hanfon i'r holl aelodau gyda'r hysbysiad o Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Derbynnir enwebiadau hyd at saith diwrnod gyn dyddiad y cyfarfod. Mae angen llofnod y person enwebedig a llofnod y cynigydd a'r eilydd ar bob enwebiad a rhaid i bob un ohonynt fod yn aelodau o'r Elusen.
- Oni bai y penderfynir fel arall gan yr Elusen mewn Cyfarfod Cyffredinol nifer y Cyfarwyddwyr fydd dim llai na 3 a dim mwy na 15.
- Fe all y Cyfarwyddwyr ar unrhyw adeg gynnig unrhyw berson i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr p' un a ydyw'n aelod o'r Elusen ai peidio, ar yr amod nad yw'n fwy na'r uchafswm a ragnodir yn Erthyglau 3 ac nad oes mwy na thri chyfetholiad o'r fath yn digwydd rhwng un Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r nesaf. Rhaid i bob person sy'n cael ei gyfethol ymddeol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn dilyn eu cyfetholiad ond bydd yn gymwys i gael ei ail benodi wedi hynny.

#### ***Sefydlu a hyfforddi ymddiriedolwyr newydd***

Mae ymddiriedolwyr yn cael eu sefydlu a'u hyfforddi gan yr Ymddiriedolwyr sy'n bodoli eisoes a staff uwch. Maen nhw hefyd yn cael eu hysbysu am faterion elusennol trwy gyfrwng cylchlythyrau rheolaidd i Ymddiriedolwyr gan y Comisiwn Elusennau, yn cynnwys cyfleoedd am hyfforddiant allanol a all fod o ddiddordeb iddynt.

#### ***Trefniadau ar gyfer gosod tâl cydnabyddiaeth personél rheoli allweddol.***

Caiff y sefydliad ei reoli gan y Prif Swyddog, L G McLean, sy'n goruchwyllo gwaith yr holl staff. Y bwrdd sy'n gosod y tâl cydnabyddiaeth.

#### ***Strwythur trefnyddol***

Daeth y sefydliad i fodolaeth ym 1992. Yn ddiweddar mae'r sefydliad wedi ehangu i gynnwys Theatr Gymunedol ddwyieithog (Theatr Soar), prosiect sydd wedi sicrhau bron i £1.4 miliwn i adnewyddu'r Ganolfan Gymraeg a thrawsnewid hen gapel Cymraeg yn Theatr Gymunedol. Mae'r Ganolfan bellach yn cael ei hadnabod fel Canolfan Soar.

Caiff y sefydliad ei reoli gan y Prif Swyddog, L G McLean, sy'n goruchwyllo gwaith yr holl staff

Mae bwrdd Ymddiriedolwyr Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful yn cyfarfod 8 gwaith y flwyddyn ac mae'n gyfrifol am gyfeiriad a pholisi strategol yr elusen. Mae'r gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio am y flwyddyn yn cael eu nodi mewn cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn. Y Prif Swyddog sy'n gyfrifol am sicrhau fod y gweithgareddau'n digwydd a bod targedau'r elusen yn cael eu cyrraedd.

# Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

## Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

### Perthynas â Phartfïon Perthnasol

Mae'r elusen wedi datblygu perthynas weithio dda gydag amrywiaeth eang o sefydliadau perthnasol. Mae sefydliadau iaith Gymraeg eraill sy'n gwasanaethu'r gymuned ym Merthyr Tudful bellach wedi eu lleoli o fewn adeilad Canolfan Soar. Mae'r rhain yn cynnwys Urdd Gobaith Cymru, Prifysgol Morgannwg Cymraeg i Oedolion Cylch Meithrin.

Mae Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful yn gweithio'n agos gyda sefydliadau Menter Iaith eraill ar draws Cymru trwy rwydwaith Mentrau Iaith Cymru.

### Manylion Cyfeirio a Gweinyddol

#### Ymddiriedolwyr

A England  
L R Harrington (penodwyd 10 Rhagfyr 2019)  
R L Howell  
M L Howells  
H Lowe  
D Morgan

#### Ysgrifennydd

L G McLean

#### Prif Swyddog

Neuadd Soar  
Pontmorlais  
Merthyr Tudful  
Morgannwg Ganol  
CF47 8UB

#### Rhif Cofrestru'r Cwmni

06249902

#### Rhif Cofrestru'r Elusen

1124473

#### Arholwr Annibynnol

Mitchell Meredith Cyfyngedig  
Cyfrifwyr Siartredig ac Arholwyr Statudol  
Canolfan Fusnes Orbit  
Parc Busnes Rhydycar  
Merthyr Tudful  
Morgannwg Ganol  
CF48 1DL

# Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

## Adroddiad yr Ymddiriedolwyr

### Offerynnau Ariannol

#### *Amcanion a pholisiau*

Mae gweithgareddau'r elusen yn ei gwneud yn agored i nifer o risgiau ariannol gan gynnwys risg credyd, risg llif arian, a risg hylifedd.

#### *Risg credyd*

Prif asedau ariannol yr elusen yw balansau banc ac arian parod, masnach a derbyniadwyon eraill.

Mae risg credyd yr elusen yn bennaf i'w briodoli i'w derbyniadwyon masnach. Mae'r symiau a gyflwynwyd ar y fantolen yn net o'r lwfansau ar gyfer derbyniadwyon amheus. Caiff lwfans ar gyfer amhariad ei wneud pan fo digwyddiad o golled wedi ei ddynodi, sydd, yn seiliedig ar brofiad blaenorol, yn dystiolaeth o adferadwyedd y llif arian.

#### *Prif risgiau a rheoli'r risgiau hynny*

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi ymchwilio'r risgiau busnes a gweithredol strategol mwyaf y mae'r elusen yn eu hwynebu ac yn cadarnhau bod systemau wedi eu sefydlu i alluogi cynhyrchu adroddiadau rheolaidd fel y gellir cymryd y camau angenrheidiol i leihau'r risgiau hyn.

Cafodd systemau eu gosod mewn lle i osod cyllidebau ar gyfer pob blwyddyn ariannol a monitro incwm a gwariant bob chwarter yn erbyn ei gyllideb. Mae'r Ymddiriedolwyr yn sicrhau fod y systemau yn ddigonol ar gyfer iechyd ariannol cyfredol yr elusen.

#### *Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr*

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful at ddibenion cyfraith cwmni) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Ymarfer Cyfrifyddu Cyffredinol Dderbyniol y Deyrnas Unedig) a chyfraith a rheoliadau cymwys.

Mae'n ofynnol yn ôl cyfraith cwmni fod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan gyfraith cwmni, rhaid i'r ymddiriedolwyr beidio â chymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg gwir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol ac o'i hadnoddau sy'n dod i mewn, a chymhwysedd adnoddau, yn cynnwys ei hincwm a'i gwariant, ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol bod yr ymddiriedolwyr yn:

- dethol polissau cytrityddu priodol a'u cymhwyso'n gyson;
- cadw at ddulliau ac egwyddorion yn y Datganiad o Arfer Argymhellir ar gyfer Elusennau
- pasio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn bwyllog
- datgan a yw Safonau Cyfrifyddu DU wedi cael eu dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir ac a gaiff eu hesbonio yn y datganiadau ariannol
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail barhaol oni bai ei fod yn amhriodol rhagdybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau mewn busnes

## **Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful**

### **Adroddiad yr Ymddiriedolwyr**

#### **Datganiad o Gyfrifoldebau**

Cyfrifoldeb yr ymddiriedolwyr yw cadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n ddigon i ddangos ac esbonio trafodion elusennol y cwmni a datgelu â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y cwmni elusennol a'u galluogi nhw i sicrhau fod y datganiadau ariannol yn cydsynio â Deddf Cwmnïau 2006. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol ac felly am gymryd camau rhesymol er mwyn atal a datgelu twyll ac anghysondebau eraill.

Cafodd yr adroddiad blynyddol ei gymeradwyo gan ymddiriedolwyr yr elusen ar 25/02/2021 a'i arwyddo ar ei ran gan :

A England  
Ymddiriedolwr

## **Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful**

### **Adroddiad Arholwr Annibynnol ar gyfer Ymddiriedolwyr Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful**

Yr wyf yn adrodd yn ôl i'r grŵp o ymddiriedolwyr yn sgil arholi cyfrifon cyfunol Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful a'r is-gwmnïau yr ymgwymerwyd â hwy ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020, sydd wedi eu gosod ar dudalennau 20 i 38.

Fel ymddiriedolwyr y grŵp, chi sy'n gyfrifol am baratoi cyfrifon cyfunol Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006 ('Deddf 2006').

Â minnau wedi'm bodloni nad oes gofyniad i archwilio cyfrifon Menter Gymraeg Merthyr Tudful o dan Rhan 16 Deddf 2006 a'u bod yn gymwys am arholi annibynnol, yr wyf yn adrodd mewn perthynas â'm arholi o'r cyfrifon cyfunol fel y'i cyflawnwyd o dan adran 145 Deddf Elusennau 2011 ('Deddf 2011'). Wrth gyflawni'r f'arholi, yr wyf wedi dilyn y Cyfarwyddiadau a roddwyd gan y Comisiwn Elusennau o dan adran 145(5)(b) Deddf 2011.

Nid yw arholi annibynnol yn cynnwys casglu'r holl dystiolaeth a fyddai'n ofynnol mewn archwiliad ac o ganlyniad nid yw'n cynnwys yr holl faterion y mae'r archwiliwr yn eu hystyried wrth roddi ei farn am y cyfrifon. Mae cynllunio a chyflawni archwiliad yn mynd y tu hwnt i'r sicrwydd cyfyngedig y gall arholwr annibynnol ei ddarparu. O ganlyniad, nid wyf yn mynegi unrhyw farn ynghylch a yw'r cyfrifon cyfunol presennol yn cyflwyno barn 'gwir a theg' ac mae f'adroddiad wedi ei gyfyngu i'r materion penodol hynny a osodwyd allan yn natganiad yr arholwr annibynnol.

#### **Datganiad yr arholwr annibynnol**

Gan fod incwm gros Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful yn fwy na £250,000 rhaid i'ch arholwr fod yn aelod o gorff rhestredig yn adran 145 Deddf 2011. Rwyf yn cadarnhau fy mod yn gymwys i ymgymryd â'r arholi gan fy mod yn aelod o Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, sef un o'r cyrff rhestredig.

Yr wyf wedi cwblhau fy arholi. Yr wyf yn cadarnhau nad oes unrhyw faterion wedi tynnu fy sylw mewn perthynas â'r arholi sy'n peri i mi greu'r canlynol:

1. nad yw cofnodion cyfrifon yn cael eu cadw mewn perthynas â Chanolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful fel sy'n ofynnol yn ôl adran 386 Deddf 2006; neu
2. nad yw'r cyfrifon yn cydsynio gyda'r cofnodion hynny; neu
3. nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion cyfrifo adran 396 Deddf 2006 ac eithrio unrhyw ofyniad fod y cyfrifon yn rhoi 'safbwynt gwir a theg' nad yw'n fater sy'n cael ei ystyried fel rhan o arholi annibynnol; neu
4. na chafodd y cyfrifon eu paratoi'n unol â dulliau ac egwyddorion Datganiad Ymarfer a Argymhellir ar gyfer cyfrifo ac adrodd yn ôl gan elusennau [sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â Safonau Adrodd Ariannol sy'n berthnasol i'r DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).]

## **Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful**

### **Adroddiad Arholwr Annibynnol ar gyfer Ymddiriedolwyr Canolfan A Menter Gymraeg**

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill yn gysylltiedig â'r archwiliad hwn y dylid tynnu sylw tuag atynt er mwyn galluogi dod i ddealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

M L Barnes  
Mitchell Meredith Limited  
Cyfrifydd Siartredig  
Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr

Canolfan Busnes Orbit  
Parc Busnes Rhyddar  
Merthyr Tudful  
Morgannwg Ganol  
CF48 1DL

Dyddiad 25/2/2021

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

**Datganiad Cyfunol o Weithgaredd Ariannol ar gyfer y Flwyddyn yn Gorffen 31 Mawrth 2020**

**(Gan gynnwys Incwm a Chyfrif Gwariant a Datganiad o Gyfanswm Cydnabyddedig Enillion a Cholledion)**

	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm 2020 £
<b>Incwm a Gwaddolion oddi wrth:</b>				
Roddion a chymynroddion	3	275	124,945	125,220
Gweithgareddau Elusenol	5	87,683	-	87,683
Gweithgareddau masnachu eraill	6	72,603	-	72,603
Incwm Buddsoddi	7	91	-	91
Cyfanswm incwm		160,652	124,945	285,597
<b>Gwariant ar:</b>				
Codi cyllid				
Gweithgareddau elusenol	8	(75,418)	-	(75,418)
Cyfanswm gwariant	9	(134,311)	(128,138)	(262,449)
Net gwariant		(209,729)	(128,138)	(337,867)
Net symudiad mewn cyllid		(49,077)	(3,193)	(52,270)
<b>Cysoni cyllid</b>				
Cyfanswm cyllid ddygwyd ymlaen		(49,077)	(3,193)	(52,270)
		1,313,383	25,845	1,339,228
	21	1,264,306	22,652	1,286,958
	Nodyn	Cronfeydd Anghyfyngedig £	Cronfeydd Cyfyngedig g	Cyfanswm 2019 £
<b>Incwm a Gwaddolion oddi wrth:</b>				
Roddion a chymynroddion	3	4,000	122,050	126,050
Gweithgareddau Elusenol	5	152,994	-	152,994
Incwm Buddsoddiad	7	3	-	3
Cyfanswm Incwm		156,997	122,050	279,047
<b>Gwariant ar:</b>				
Weithgareddau elusenol	9	(188,233)	(113,808)	(302,041)
Cyfanswm gwariant		(188,233)	(113,808)	(302,041)
Net (gwariant) incwm		(31,236)	8,242	(22,994)
Net symudiad mewn cyllid		(31,236)	8,242	(22,994)
Cysoni cyllid				
Cyfanswm cyllid ddygwyd ymlaen		1,344,619	17,603	1,362,222
Cyfanswm cyllid ddygwyd	21	1,313,383	25,845	1,339,228

Mae holl weithgareddau'r grwp yn deillio o weithrediadau parhaus yn ystod y ddau gyfnod uchod. Dangosir dadansoddiad cyllid ar gyfer 2019 yn nodyn 21.

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

(Rhif cofrestru: 06249902)  
Mantolen Cyfunol as at 31 Mawrth 2020

	Nodyn	2020 £	2019 £
<b>Asedau gosodedig</b>			
Asedau diriaethol	16	1,304,501	1,324,408
Buddsoddiadau		-	1
		<u>1,304,501</u>	<u>1,324,409</u>
<b>Asedau Cyfredol</b>			
Dyledwyr	18	19,383	31,902
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	19	11,708	27,517
		31,091	59,419
<b>Credydwyr: Symiau'n disgyn sy'n ddyledus ymhen blwyddyn</b>	20	(48,634)	(44,600)
		(17,543)	14,819
<b>Net asedau cyfredol (rhwymedigaethau)/asedau</b>		<u>1,286,958</u>	<u>1,339,228</u>
<b>Net asedau</b>			
<b>Cyllid y grŵp:</b>			
<b>Cyllid incwm cyfyngedig</b>	21	22,652	25,845
Cronfeydd cyfyngedig			
<b>Cyllid incwm anghyfyngedig</b>		<u>1,264,306</u>	<u>1,313,383</u>
Cronfeydd anghyfyngedig	21	<u>1,286,958</u>	<u>1,339,228</u>

Cafodd y datganiadau ar dudal 20 i 38 eu cymeradwyo yr ymddiric a'u hawdurdo i'w cyflw ar 25/02/2021 ac arwyddwyd ar eu rhan gan:

A England  
Ymddiriedolwr

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

(Rhif Cofrestru: 06249902)  
Mantolen ar 31 Mawrth 2020

	Nodyn	2020 £	2019 £
<b>Asedau sefydlog</b>			
Asedau diriaethol	16	1,304,501	1,324,408
Buddsoddiadau		<u>1</u>	<u>1</u>
		<u>1,304,502</u>	<u>1,324,409</u>
<b>Asedau cyfredol</b>			
Dyledwyr	18	14,414	31,902
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	19	<u>10,486</u>	<u>27,517</u>
		24,900	59,419
<b>Credidwyr: Symiau'n disgyn sy'n ddyledus ymhen un flwyddyn</b>	20	<u>(39,629)</u>	<u>(44,600)</u>
		<u>(14,729)</u>	<u>14,819</u>
<b>Net asedau /(rhwymedigaethau) cyfredol</b>		<u>1,289,773</u>	<u>1,339,228</u>
<b>Net asedau</b>			
<b>Cyllid yr elusen:</b>			
<b>Cyllid incwm cyfyngedig</b>	21	22,652	25,845
Cronfeydd cyfyngedig			
<b>Cyllid incwm anghyfyngedig</b>		<u>1,267,121</u>	<u>1,313,383</u>
Cronfeydd anghyfyngedig	21	<u>1,289,773</u>	<u>1,339,228</u>

Cafodd datganiadau ar dudal 20 i 38 eu cymeradwga yr ymddiric a'u hawdurdod i'w cyflw ar 25/02/2021 a'u harwyddo ar eu rhan gan:

A England  
Ymddiriedolwr

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

### Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020

#### 1 Statws Elusennol

Mae'r elusen yn un sydd wedi ei chyfyngu gan warant, a'i hymgorffori yng Nghymru a Lloegr, ac o ganlyniad nid oes ganddi gyfran o'r cyfalaf. Mae pob un o'r ymddiriedolwyr yn atebol i gyfrannu swm nad yw'n fwy na £1 tuag at asedau'r elusen pe byddai'n methdal.

Mae'r elusen wedi ei hymgorffori yng Nghymru a Lloegr.

Cyfeiriad ei swyddfa gofrestredig yw:

Neuadd Soar  
Pontmorlais  
Merthyr Tudful  
Morgannwg Ganol  
CF47 8UB

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi gan yr ymddiriedolwyr ar 25/02/2021

#### 2 Polisiau cyfrifo

##### **Crynodeb o bolisiau cyfrifo sylweddol ac amcangyfrifon cyfrifo allweddol**

Caiff y prif bolisiau cyfrifo a weithredwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn eu gosod isod. Cafodd y polisiau hyn eu gweithredu'n gyson ym mhob blwyddyn a gyflwynwyd, oni nodir fel arall.

##### **Datganiad o gydsynio**

Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi yn unol â Chyfrifyddu ac Adrodd yn Ôl gan Elusennau: Datganiad o Ymarfer a Argymhellir sy'n gymwys i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (mewn grym o 1 Ionawr 2015) - (Datganiad o'r Arfer a Argymhellir gan Elusennau (FRS 102)), Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) Maent hefyd yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006 a Deddf Elusennau 2011

##### **Sail y paratoad**

Mae Canolfan a Menter Gymraeg Merthyr Tudful yn bodloni'r diffiniad o endid budd cyhoeddus o dan FRS 102. Caiff asedau a rhwymedigaethau eu cydnabod i ddechrau yn ôl cost hanesyddol neu werth trafod oni nodir fel arall yn y nodiadau polisi cyfrifyddu perthnasol.

##### **Sail cyfuno**

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cyfuno datganiadau ariannol yr elusen ac ymgymeriadau ei his-gwmnïau a luniwyd hyd at 31 Mawrth 2020.

Ni chaiff unrhyw ddatganiad am weithgareddau ariannol ei gyflwyno ar gyfer yr elusen, fel a ganiatawyd gan adran 408 Deddf Cwmnïau 2006. Gwnaeth yr elusen ddiffyg ariannol ar ôl treth ar gyfer y flwyddyn ariannol, sef £52,270 (2019 – colled o £22,994).

## **Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful**

### **Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020**

Mae is-gwmni'n endid sy'n cael ei reoli gan yr elusen. Caiff rheolaeth ei gyflawni pan fo gan yr elusen y pŵer i lywodraethu polisiau ariannol a gweithredol endid er mwyn cael buddion o'i weithgaredd.

Caiff canlyniadau is-gwmnïau caffaeledig neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn eu cynnwys yn natganiad y gweithgareddau ariannol o'r dyddiad y daeth y caffaeliad i rym neu i fyny at y dyddiad y daeth y gwaredu i rym, fel sy'n briodol. Ble y bo'n angenrheidiol, caiff addasiadau eu gwneud i ddatganiadau'r is-gwmnïau er mwyn dod â'u polisiau cyfrifo i fod yn unol â'r rheini a ddefnyddiwyd gan y grŵp.

Caiff trafodion rhwng cwmnïau, balansau ac enillion na chaiff eu gwireddu ar drafodion rhwng yr elusen a'i his-gwmnïau, sy'n berthnasol i bartion, eu gwaredu'n llwyr.

Caiff colledion intra-grŵp eu gwaredu hefyd ond gallent ddynodi nam sy'n gofyn am gydnabyddiaeth yn y datganiadau ariannol cyfunol.

Cafodd polisiau cyfrifo is-gwmnïau eu newid ble yr oedd yn angenrheidiol i sicrhau cysondeb gyda'r polisiau a fabwysiadwyd gan y grŵp.

#### **Eithrio rhag paratoi datganiad llif arian**

Dewisodd yr elusen fabwysiadu Bwletin 1 a gyhoeddwyd ar 2 Chwefror 2016 ac felly nid ydyw wedi cynnwys datganiad llif arian yn y datganiadau ariannol hyn.

#### **Busnes hyfyw**

Cafwyd pwysau ar y llif arian o ganlyniad i gyfraniad ariannol blynyddol sylweddol y cyngor yn dod i ben rai blynyddoedd yn ôl, ynghyd â chyndynrwydd noddwyr i ddarparu ar gyfer costau craidd y Fenter. Yn ychwanegol at hyn mae ansicrwydd cynhenid o ganlyniad i Bandemig Covid-19. Mae'r Ymddiriedolwyr yn hyderus y bydd sicrhau nawdd oddi wrth ddau Grant Ardrethi Busnes, Cynllun Cadw Swyddi, Cronfa Sefydlogrwydd Cyngor y Celfyddydau a Chronfa Dreftadaeth y Loteri yn ystod Argyfwng Covid wedi galluogi'r elusen i gynllunio ar gyfer dyfodol y sefydliad. Gweler y crynodeb o'r gwaith a gyflawnwyd ers dechrau Covid am dystiolaeth o hyn ar dudalennau 11-13. Er gwaetha'r problemau a wynebwyd gan y sefydliad dros y 2 flynedd ddiwethaf a'r ansicrwydd mae Pandemig Covid-19 yn ei gyflwyno i ni, mae'r ymddiriedolwyr o'r farn nad oes yna unrhyw ansicrwydd materol ynghylch gallu'r elusen i barhau fel busnes hyfyw, nac unrhyw feysydd ansicrwydd sylweddol eraill sy'n effeithio ar werth cario ymlaen asedau a gedwir gan yr elusen.

#### **Incwm a gwaddolion**

Caiff yr holl incwm ei gydnabod pan fydd gan yr elusen hawliad dros yr incwm, y mae'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn ac y bydd y swm o'r incwm sy'n dderbyniadwy yn gallu cael ei fesur yn ddibynadwy.

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

### Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020

#### ***Rhoddion a chymunroddion***

Caiff rhoddion eu cydnabod pan fo'r elusen wedi cael ei hysbysu yn ysgrifenedig am swm a dyddiad y setliad. Ar achlysur pan fo rhodd yn amodol ar amodau sy'n gofyn am lefel o berfformiad gan yr elusen cyn bod yr elusen â hawl i'r cyllid, caiff yr incwm ei ohirio ac ni chaiff ei gydnabod hyd nes bod yr amodau hynny'n cael eu bodloni'n llwyr, neu fod cyflawniad o'r amodau hynny yn gyfan gwbl oddi fewn i reolaeth yr elusen a'i fod yn debygol y bydd yr amodau hyn yn cael eu cyflawni yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl.

#### ***Grantiau derbynadwy***

Caiff grantiau eu cydnabod pan fo gan yr elusen hawliad i'r cyllid a bod unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â'r grantiau eto i'w diwallu, caiff yr incwm ei gydnabod fel rhwymedigaeth a'i gynnwys ar y fantolen fel incwm gohiriedig i'w ryddhau.

#### ***Gwariant***

Caiff yr holl wariant ei gydnabod cyn gynted ag y bo oblygiad cyfreithiol neu adeiladol i'r gwariant hwnnw, y mae'n debygol fod angen setliad ac y gall y swm gael ei fesur mewn modd dibynadwy. Caiff yr holl gostau eu dyrannu i'r pennawd gwariant cymwys sy'n cronni costau tebyg i'r categori hwnnw. Pan na fo costau'n gallu cael eu priodoli i benawdau penodol y maent wedi eu dyrannu ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau, gyda chostau canolog staff wedi eu dyrannu ar sail amser a dreuliyd, a chostau dibrisiad wedi eu dyrannu a ddyrannwyd ar y gyfran o'r defnydd o'r ased.

#### ***Gweithgareddau elusennol***

Mae gwariant elusennol yn cynnwys y costau hynny sy'n ddyledus i'r elusen wrth iddi gyflawni ei gweithgareddau a'i gwasanaethau i'w buddiolwyr. Y mae'n cynnwys y costau y gellir eu dyrannu'n uniongyrchol i'r fath weithgareddau a'r costau hynny sydd o natur anuniongyrchol sydd eu hangen i'w cefnogi nhw.

#### ***Costau cefnogi***

Mae costau cefnogi'n cynnwys swyddogaethau canolog ac maen nhw wedi cael eu dyrannu i gategoriâu costau gweithgaredd ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau, er enghraifft, dyrannu costau eiddo yn ôl arwynebedd lawr, neu per capita, costau staff yn ôl yr amser a chostau eraill yn ôl y defnydd ohonynt.

#### ***Costau llywodraethiant***

Mae'r rhain yn cynnwys costau a briodolir â chydysnio'r elusen â gofynion cyfansoddiadol a statudol, yn cynnwys archwilio, rheoli strategol a chyfarfodydd ymddiriedolwyr ac ad-dalu costau.

#### ***Trethiant***

Caiff ei ystyried fod yr elusen wedi llwyddo yn y profion a osodir ym Mharagraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010 ac felly y mae'n bodloni'r diffiniad o gwmni elusennol at ddibenion treth gorfforaethol DU. Gan hynny, mae'n bosibl fod yr elusen wedi ei hesgusodi rhag trethiant mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbyniwyd oddi fewn i gategoriâu sy'n cael eu cynnwys ym Mhennod 3 Rhan 11 Deddf Treth Gorfforaethol 2010 neu Adran 256 Deddf Trethiant Enillion Taliadau 1992, i'r graddau fod incwm neu enillion o'r fath yn gymwys yn gyfan gwbl at ddibenion elusennol.

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

### Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020

#### Asedau sefydlog diriaethol

Mae asedau sefydlog unigol sy'n costio £500.00 neu fwy yn cael eu cofnodi i ddechrau yn ôl cost, llai unrhyw ddibrisiad olynol cronol a cholledion amhariad cronol olynol.

#### Dibrisiad ac amorteiddiad

Caiff dibrisiad ei ddarparu ar asedau sefydlog diriaethol er mwyn dibrisio'r gost neu'r prisiad, llai unrhyw werth gweddilliol amcangyfrifir, dros eu bywyd economaidd defnyddiol ddisgwylied fel a ganlyn:

#### Dosbarth ased

#### Dull a chyfradd dibrisiad

Eiddo Rhydd-ddaliol

2% ar y gost

Darnau gosod ac offer

15% llai balans

#### Dyledwyr masnach

Y symiau sy'n ddyledus gan gwsmeriaid yw dyledwyr masnach, a hynny am nwyddau a werthwyd neu wasanaethau a berfformiwyd wrth redeg y busnes.

Caiff dyledwyr masnach eu cydnabod yn ôl pris trafodyn. Caiff darpariaeth ar gyfer amhariad dyledwyr masnach ei sefydlu pan fo tystiolaeth wrthrychol na fydd yr elusen yn gallu casglu'r holl symiau sy'n ddyledus yn ôl telerau gwreiddiol y derbyniadwyon.

#### Arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod

Mae arian parod a'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod yn cynnwys arian parod wrth law ac adneuron galw.

#### Credydwyr masnach

Mae credydwyr masnach yn oblygiadau i dalu am nwyddau neu wasanaethau sydd wedi eu caffael yn ystod hynt busnes oddi wrth gyflenwyr. Mae cyfrifon taladwy yn cael eu dosbarthu fel rhwymedigaethau cyfredol os and oes gan yr elusen hawl ddiamod, ar ddiwedd y cyfnod adrodd yn ôl, i ohirio setliad o'r credydwr am o leiaf deuddeg mis ar ôl y dyddiad adrodd yn ôl. Os oes yna hawl ddiamod i oedi setliad am o leiaf deuddeg mis ar ôl y dyddiad adrodd yn ôl, maen nhw'n cael eu cyflwyno fel rhwymedigaethau di-gyfredol.

Caiff credydwyr masnach eu cydnabod yn ôl pris trafodyn.

#### Strwythur cronfa ariannol

Mae cronfeydd cyffredinol ydy cronfeydd incwm di-gyfyngedig sydd ar gael i'w defnyddio yn ôl disgrisiwn yr ymddiriedolwyr ymhellach at amcanion yr elusen

Mae cronfa asedau sefydlog yn cynrychioli net gwerth llyfr eiddo ac asedau diriaethol sefydlog eraill.

Cronfeydd incwm cyfyngedig yw'r rheini sy'n cael eu rhoi i'w defnyddio mewn maes penodol neu at ddibenion arbennig, ac mae'r defnydd ohono wedi ei gyfyngu i'r maes neu'r diben hwnnw.

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

### Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020

#### Pensiynau ac oblygiadau ôl-ymddeoliad eraill

Mae'r grŵp yn gweithredu cynllun cyfraniadau pensiwn diffiniedig. Codir tâl cyfraniadau yn y Datganiad o Weithredoedd Ariannol gan eu bod yn dyfod yn daladwy yn unol â rheolau'r cynllun. sef cynllun pensiwn ble y caiff cyfraniadau sefydlog eu talu i gronfa bensiwn ac nad oes gan y grŵp oblygiad cyfreithiol nad adeiladol i dalu cyfraniadau pellach hyd yn oed os nad yw'r gronfa'n dal asedau digonol i dalu'r holl gyflogeion a'r buddion perthnasol i wasanaeth cyflogeion yn y cyfnod hwn a chyfnodau blaenorol.

Caiff cyfraniadau i gynllunio cyfrannu diffiniedig eu cydnabod yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ble y maent yn ddyledus.

#### Offerynnau ariannol

##### Dosbarthiad

Dim ond asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol o'r fath sy'n cymhwyso fel offerynnau ariannol sylfaenol, sydd gan yr elusen. Caiff offerynnau ariannol sylfaenol eu cydnabod yn ôl gwerth trafodyn.

### 3 Incwm oddi wrth roddion a chymunroddion

	Cronfeydd cyffredinol £	Cronfeydd cyfyngedig £	Cyfanswm 2020 £	Cyfanswm 2019 £
Rhoddion a chymunroddion;				
Rhoddion oddi wrth unigolion	275	13	288	4,405
Grantiau yn cynnwys grantiau cyfalaf;				
Grantiau oddi wrth elusennau eraill	-	124,932	124,392	121,645
	275	124,945	125,220	126,050

### 4 Grantiau derbyniadwy

	Cronfeydd cyfyngedig £	Cyfanswm cronfeydd 2020 £	Cyfanswm cronfeydd 2019 £
Llywodraeth Cymru	70,000	70,000	70,000
Cyngor Celfyddydau Cymru	350	350	13,450
MTCBC	7,500	7,500	22,055
Loteri Treftadaeth CBSMT	2,082	2,082	9,200
Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo	-	-	6,940
Menter Iaith	5,000	5,000	-
Stadiwm y Mileniwm	5,000	5,000	-
CFAP	25,000	25,000	-
Big Lottery	10,000	10,000	-
	124,932	124,932	121,645

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020

### 5 Incwm o weithgareddau elusennol

	Cronfeydd cyffredinol £	Cyfanswm 2020 £	Cyfanswm 2019 £
Incwm Rent	67,310	67,310	65,506
Gwaith Cyfieithu	-	-	54,429
Gweithgareddau'r Theatr	15,636	15,636	25,789
Gweithgareddau'r Ganolfan	4,737	4,737	7,270
	<u>87,683</u>	<u>87,683</u>	<u>152,994</u>

### 6 Incwm o weithgareddau masnachu eraill

	Cronfeydd cyffredinol £	Cyfanswm 2020 £
Incwm Masnachu; Gwaith Cyfieithu		
		<u>72,603</u>
		<u>72,603</u>

### 7 Incwm Buddsoddiad

	Cronfeydd cyffredinol £	Cyfanswm 2020 £	Cyfanswm 2019 £
Llog derbyniadwy ar adnau banc			
		<u>91</u>	<u>3</u>

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

**Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020**

### 8 Gwariant ar godi arian

<b>Costau masnachu'r is-gwmni</b>	<b>Cronfeydd cyffredinol</b>	
	<b>2020</b>	<b>2019</b>
	<b>£</b>	<b>£</b>
Cyfieithwyr llawrydd	12,650	-
Costau staff	44,905	-
Costau swyddfa	6,382	-
Costau adeiladau	9,424	-
Costau cyffredinol	13	-
Tanysgrifiadau	300	-
Ffioedd cyfrifydd	1,722	-
Ffioedd proffesiynol	22	-
	75,418	-

### 9 Gwariant ar weithgareddau elusennol

<b>Nodyn</b>	<b>Cronfeydd Cyffredinol £</b>	<b>Cronfeydd Cyfyngedig £</b>	<b>Cyfanswm 2020 £</b>	<b>Cyfanswm 2019 £</b>
Costau uniongyrchol	11,441	56,752	68,193	47,893
Costau staff	40,906	61,378	102,284	153,280
Costau cefnogi dynodedig 10	75,953	10,008	83,961	93,521
Costau llywodraethiant 10	8,011	-	8,011	7,347
	134,311	128,138	262,449	302,041

### 10 Dadansoddiad o gostau llywodraethiant a chymorth

#### Costau llywodraethiant

	<b>Cronfeydd cyffredinol £</b>	<b>Cyfanswm 2020 £</b>	<b>Cyfanswm 2019 £</b>
Ffi yr Arholwr Annibynnol			
Arholi'r datganiadau ariannol	4,200	4,200	4,068
Ffioedd eraill a dalwyd i'r Arholwyr	3,811	3,811	3,279
	8,011	8,011	7,347

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

**Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020**

### Dadansoddi costau cymorth

	Gweithgaredd Elusennol	Swyddogaeth Llywodraethiant	Cyfanswm 2020	Cyfanswm 2019
	£	£	£	£
Hysbysebu	3,882	-	3,882	530
Costau Swyddfa	3,619	-	3,619	10,957
Costau Adeiladau	27,385	-	27,385	31,427
Costau Cyffredinol	1,663	-	1,663	1,026
Ffioedd Cyfrifeg	-	8,011	8,011	7,347
Tanysgrifiadau	1,502	-	1,502	-
Ffioedd Proffesiynol	5,972	-	5,972	10,180
Dyled Gwael	3,106	-	3,106	2,729
Costau Banc	1,446	-	1,446	2,314
Dibrisiant	35,386	-	35,386	34,458
	83,961	8,011	91,972	100,968

### 11 Net incwm / adnoddau

Mae Net adnoddau allan am y flwyddyn yn cynnwys:

	2020 £	2019 £
Gweithredu pryddlesau – offer a pheririannau	343	3,135
Dibrisiant asedau sefydlog	35,386	34,458

### 12 Cydnabyddiaeth tâl a chostau'r Ymddiriedolwyr

Ni does unrhyw ymddiriedolwr, nac unrhyw berson sy'n gysylltiedig â hwy, wedi derbyn unrhyw gydnabyddiaeth tâl oddi wrth y grŵp yn ystod y flwyddyn.

Nid oes unrhyw ymddiriedolwr wedi derbyn unrhyw ad-daliad costau nac unrhyw fudd-dal arall oddi wrth yr elusen yn ystod y flwyddyn.

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

### Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020

#### 13 Costau staff

Roedd costau cronol y gyflogres fel a ganlyn:

	2020 £	2019 £
<b>Costau staff yn ystod y flwyddyn:</b>		
Pae a chyflogau	92,719	143,693
Costau nawdd cymdeithasol	6,979	7,739
Costau pensiwn	2,586	1,848
	<u>102,284</u>	<u>153,280</u>

Roedd cyfartaledd misol y nifer o bersonau (yn cynnwys tîm uwch reoli) a gyflogwyd gan yr elusen yn ystod y flwyddyn wedi ei fynegi fel cyfwerthyddion llawn amser fel a ganlyn:

	Rhif 2020	Rhif 2019
Staff	<u>8</u>	<u>10</u>

Ni dderbyniodd unrhyw gyflogai enillion o fwy na £60,000 yn ystod y flwyddyn.

Cyfanswm buddion cyflogai personél rheoli allweddol yr elusen oedd £33,570 (2019 - £33,570).

#### 14 Tâl yr arholwr annibynnol

	2020 £	2019 £
Arholi'r datganiadau ariannol	<u>4,200</u>	<u>4,068</u>
<b>Ffioedd eraill yr arholwyr</b>		
Arholi cyfrifon unrhywrai sy'n gysylltiedig â'r elusen	1,722	-
Yr holl wasanaethau eraill	<u>3,811</u>	<u>3,279</u>
	<u>5,533</u>	<u>3,279</u>

#### 15 Trethiant

Mae'r elusen yn elusen gofrestrdedig ac felly wedi ei hesgusodi rhag trethiant.

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

### Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020

#### 16 Asedau diriaethol sefydlog

##### Grŵp

	Tir ac Adeiladau £	Dodrefn ac Offer £	Cyfanswm £
<b>Cost</b>			
Ar 1 Ebrill 2019	1,532,649	83,258	1,615,907
Ychwanegiadau	-	15,479	15,479
Ar 31 Mawrth 2020	1,532,649	98,737	1,631,386
<b>Dibrisiant</b>			
Ar 1 Ebrill 2019	234,334	57,165	291,499
Tâl godwyd am y flwyddyn	29,853	5,533	35,386
Ar 31 Mawrth 2020	264,187	62,698	326,885
<b>Net llyfrwerth</b>			
Ar 31 Mawrth 2020	1,268,462	36,039	1,304,501
Ar 31 Mawrth 2019	1,298,315	26,093	1,324,408

##### Elusen

	Tir ac Adeiladau £	Dodrefn ac Offer £	Cyfanswm £
<b>Cost</b>			
Ar 1 Ebrill 2019	1,532,649	83,258	1,615,907
Ychwanegiadau	-	15,479	15,479
Ar 31 Mawrth 2020	1,532,649	98,737	1,631,386
<b>Dibrisiant</b>			
Ar 1 Ebrill 2019	234,334	57,165	291,499
Tâl godwyd am y flwyddyn	29,853	5,533	35,386
Ar 31 Mawrth 2020	264,187	62,698	326,885
<b>Net llyfrwerth</b>			
Ar 31 Mawrth 2020	1,268,462	36,039	1,304,501
Ar 31 Mawrth 2019	1,298,315	26,093	1,324,408

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

**Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020**

### 17 Buddsoddiadau asedau sefydlog

#### Grŵp

	2020 £	2019 £	
Cyfranddaliadau yn ymgymeriadau'r grŵp a buddion cyfranogol.	-	1	

#### Elusen

#### Cyfranddaliadau yn ymgymeriadau'r grŵp a buddion cyfranogol

	Ymgymeriadau' r is-gwmni £	Cyfanswm £	
<b>Cost</b>			
Ar 1 Ebrill 2019	1	1	
Ar 31 Mawrth 2020	1	1	
<b>Net llyfrwerth</b>			
Ar 31 Mawrth 2020	1	1	
Ar 31 Mawrth 2020	1	1	

#### Manylion yr ymgymeriadau

Yn dilyn, ceir manylion y buddsoddiadau ble deil yr elusen 20% neu fwy o werth enwol unrhyw ddsbarth o gyfalaf cyfranddaliadau:

Ymgymeriad	Gwlad ei ymgorffori	Daliad	Cyfran daliad hawliau pleidleiso a chyfranddaliadau weithgaredd 2020	2019	Prif Darparu gwasanaeth cyfieithu
Lingo Soar Cyfyngedig Canolfan Soar, Pontmorlais, Merthyr Tydfil, CF47 8UB	Cymru a Lloegr	Cyfranddaliadau cyffredin	100%	100%	

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

### Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020

#### Is-gwmnïau

Y golled ar gyfer y cyfnod ariannol i Lingo Soar Cyfyngedig oedd £2,815 (2019 - £Dim) a swm cronol cyfalaf ac wrth gefn ar ddiwedd y cyfnod oedd £(2,814) (2019 - £Dim).

Cafodd y Cwmni ei ymgorffori ar 06/02/2019 a dechreuodd masnachu ar 01/04/2019. Rhid Cofrestru'r Cwmni yw 11810191.

#### 18 Debtors

	Grŵp		Elusen	
	2020 £	2019 £	2020 £	2019 £
Dyledwyr masnach	16,951	28,814	10,920	28,814
Dyledus o ymgymeriadau'r grŵp	-	150	1,062	150
Rhagdaliadau	2,432	2,938	2,432	2,938
	19,383	31,902	14,414	31,902

#### 19 Arian parod a'r hyn sydd gyfwerth ag arian parod

	Grŵp		Elusen	
	2020 £	2019 £	2020 £	2019 £
Arian parod yn y banc	11,708	27,517	10,486	27,517

#### 20 Credidwyr: symiau'n disgyn sy'n ddyledus ymhen blwyddyn

	Grŵp		Grŵp	
	2020 £	2019 £	2020 £	2019 £
Credydwyr treth	20,674	20,787	18,553	20,787
Trethiant arall a nawdd cymdeithasol	2,283	2,419	2,283	2,419
TAW taliadwy	4,637	-	-	-
Credydwr cynllun pensiwn	524	290	524	290
A Croniadau	20,516	21,104	18,269	21,104
	48,634	44,600	39,629	44,600

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

**Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020**

### 21 Funds

#### Grŵp

	Mantolen ar 1 Ebrill 2019 £	Adnoddau i mewn £	Adnoddau a wariwyd £	Mantolen ar 31 Mawrth 2020 £
<b>Cronfeydd anghyfyngedig</b>				
<i>Cyffredinol</i>				
Cyllid cyffredinol	(11,026)	160,652	(175,962)	(26,336)
Cronfa Asedau Sefydlog	1,324,409	-	(33,767)	1,290,642
	1,313,383	160,652	(209,729)	1,264,306
<b>Cronfeydd cyfyngedig</b>				
Cronfa'r organ	8,905	32,095	(41,000)	-
Grant Ieuenctid	-	7,500	(7,500)	-
Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo	6,940	-	(780)	6,160
Llywodraeth Cymru	10,000	70,000	(73,026)	6,974
Cyngor Celfyddydau Cymru	-	350	(350)	-
Loteri Fawr	-	10,000	(1,174)	8,826
Menter Iaith	-	5,000	(4,308)	692
	25,845	124,945	(128,138)	22,652
<b>Cyfanswm Cronfeydd cyfyngedig</b>	25,845	124,945	(128,138)	22,652
<b>Cyfanswm funds</b>	1,339,228	285,597	(337,867)	1,286,958

	Mantolen ar 1 Ebrill 2018 £	Adnoddau i mewn £	Adnoddau a wariwyd £	Mantolen ar 31 Mawrth 2019 £
<b>Cronfeydd anghyfyngedig</b>				
<i>Cyffredinol</i>				
Cyllid cyffredinol	(14,247)	156,997	(153,776)	(11,026)
Cronfa Asedau Sefydlog	1,358,866	-	(34,457)	1,324,409
	1,344,619	156,997	(188,233)	1,313,383
<b>Cronfeydd cyfyngedig</b>				
Cronfa'r organ	5,965	13,105	(10,165)	8,905
Grant Ieuenctid	-	15,000	(15,000)	-
Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo	-	6,940	-	6,940
Llywodraeth Cymru	-	70,000	(60,000)	10,000
Cyngor Celfyddydau Cymru	11,638	13,950	(25,588)	-
MTCBC - Salary	-	3,055	(3,055)	-
	17,603	122,050	(113,808)	25,845
<b>Cyfanswm Cronfeydd cyfyngedig</b>	17,603	122,050	(113,808)	25,845
<b>Cyfanswm funds</b>	1,362,222	279,047	(302,041)	1,339,228

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

### Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020

#### Charity

	Mantolen ar 1 Ebrill 2019 £	Adnoddau i mewn £	Adnoddau a wariwyd £	Mantolen ar 31 Mawrth 2020 £
<b>Cronfeydd anghyfyngedig</b>				
<i>Cyffredinol</i>				
Cyllid cyffredinol	(11,026)	88,048	(100,543)	(23,521)
Cronfa Asedau Sefydlog	1,324,409	-	(33,767)	1,290,642
	<u>1,313,383</u>	<u>88,048</u>	<u>(134,130)</u>	<u>1,267,121</u>
<b>Cronfeydd cyfyngedig</b>				
Cronfa'r organ	8,905	33,095	(41,000)	-
Grant Ieuenctid	-	7,500	(7,500)	-
Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo	6,940	-	(780)	6,160
Llywodraeth Cymru	10,000	70,000	(73,026)	6,974
Cyngor Celfyddydau Cymru	-	350	(350)	-
Loteri Fawr	-	10,000	(1,174)	8,826
Menter Iaith	-	5,000	(4,308)	692
<b>Cyfanswm Cronfeydd cyfyngedig</b>	<u>25,845</u>	<u>124,945</u>	<u>(128,138)</u>	<u>22,652</u>
<b>Cyfanswm funds</b>	<u>1,339,228</u>	<u>212,993</u>	<u>(262,448)</u>	<u>1,289,773</u>

	Mantolen ar 1 Ebrill 2018 £	Adnoddau i mewn £	Adnoddau a wariwyd £	Mantolen ar 31 Mawrth 2019 £
<b>Cronfeydd anghyfyngedig</b>				
<i>Cyffredinol</i>				
Cyllid cyffredinol	(14,247)	156,997	(153,776)	(11,026)
Cronfa Asedau Sefydlog	1,358,866	-	(34,457)	1,324,409
	<u>1,344,619</u>	<u>156,997</u>	<u>(188,233)</u>	<u>1,313,383</u>
<b>Cronfeydd cyfyngedig</b>				
Cronfa'r organ	5,965	13,105	(10,165)	8,905
Grant Ieuenctid	-	15,000	(15,000)	-
Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo	-	6,940	-	6,940
Llywodraeth Cymru	-	70,000	(60,000)	10,000
Cyngor Celfyddydau Cymru	11,638	13,950	(25,588)	-
MTCBC - Salary	-	3,055	(3,055)	-
<b>Cyfanswm Cronfeydd cyfyngedig</b>	<u>17,603</u>	<u>122,050</u>	<u>(113,808)</u>	<u>25,845</u>
<b>Cyfanswm funds</b>	<u>1,362,222</u>	<u>279,047</u>	<u>(302,041)</u>	<u>1,339,228</u>

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

### Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020

Mae'r canlynol yn nodi'r dibenion penodol y caiff y cronfeydd eu cymhwyso ar eu cyfer:

Cronfa Dreftadaeth y Loteri - Gwaith Adeiladu Prosiect Soar ac adnewyddu'r organ

Grant Ieuenctid – costau swyddog

Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo – diweddarau'r systemau cyfrifiadurol

Llywodraeth Cymru – Costau cyflogi'r Prif Swyddog a'r Swyddog Datblygu a chymorth marchnata

Cyngor Celfyddydau Cymru – Prosiect Datblygu Cynulleidfaoedd

CBSMT – Costau cyflogi Swyddog Iaith Gymraeg

Loteri Fawr – Offer

Menter Iaith – Gŵyl Werin

#### 22 Analysis of net assets between funds

##### Grŵp

	Cronfeydd Cyffredinol £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm cronfeydd ar 31/03/2020 £
Asedau sefydlog diriaethol	1,290,641	13,860	1,304,501
Asedau cyfredol	22,299	8,792	31,091
Rhwymedigaethau presennol	(48,634)	-	(48,634)
Cyfanswm net assets	1,264,306	21,652	1,284,147

	Cronfeydd Cyffredinol £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm cronfeydd ar 31/03/2019 £
Asedau sefydlog diriaethol	1,324,408	-	1,324,408
Buddsoddiadau Asedau Sefydlog	1	-	1
Asedau cyfredol	33,574	25,845	59,419
Rhwymedigaethau presennol	(44,600)	-	(44,600)
Cyfanswm net assets	1,313,383	25,845	1,339,228

## Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful

### Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020

#### Elusen

	Cronfeydd Cyffredinol £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm cronfeydd ar 31/03/2020 £
Asedau sefydlog diriaethol	1,290,641	13,860	1,304,501
Buddsoddiadau Asedau Sefydlog	1	-	1
Asedau cyfredol	16,108	8,792	24,900
Rhwymedigaethau presennol	(39,629)	-	(39,629)
Cyfanswm net assets	1,267,121	22,652	1,289,773

	Cronfeydd Cyffredinol £	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cyfanswm cronfeydd ar 31/03/2019 £
Asedau sefydlog diriaethol	1,324,408	-	1,324,408
Buddsoddiadau Asedau Sefydlog	1	-	1
Asedau cyfredol	33,574	25,845	59,419
Rhwymedigaethau presennol	(44,600)	-	(44,600)
Cyfanswm net assets	1,313,383	25,845	1,339,228

#### 23 Ymgymeriad rhiant a rhiant eithaf

Rhiant eithaf y cwmni yw Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful, a ymgorfforwyd yng Nghymru a Lloegr.

Yr endid rhiant uchaf sy'n cynhyrchu datganiadau ariannol sydd ar gael i'r cyhoedd yw Canolfan A Menter Gymraeg Merthyr Tudful.

#### 24 Digwyddiadau nad ydynt yn addasu ar ôl y cyfnod ariannol

Yn dilyn pandemig byd-eang a Rheoliadau Llywodraeth San Steffan, roedd yn rhaid i Ganolfan a Theatr Soar gau ei drysau ar 17 Mawrth 2020. Mae'r ddau swyddog, a ariennir gan grant oddi wrth Lywodraeth Cymru'n parhau i weithio o adref. Cafodd 8 aelod o staff eu gosod ar gynllun ffyrlo o 18 Mawrth 2020 a cholodd yr Elusen aelod o staff. Ym mis Awst 2020, collodd yr Elusen 2 aelod pellach o staff. Erbyn nawr, mae 6 aelod o staff ar ffyrlo hyblyg, gyda 2 aelod yn gweithio eu horiau llawn.

#### Cymorth Ariannol yn ystod y cyfnod

Mae'r Elusen wedi bod yn ffodus o sicrhau cyllid oddi wrth Gyngor Celfyddydau Cymru (£35,000), Cronfa Dreftadaeth y Loteri (£76,630), a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (£30,000). Mae'r grantiau hyn wedi sicrhau dyfodol y sefydliad gan gyfrannu tuag at gostau rhedeg yr adeiladau a gwaith adfer adeiladau a phrosiectau.

Mae manylion pellach ynghylch y gweithgareddau yr ymgymerodd yr Elusen â nhw wrth ymateb i'r pandemig wedi eu cynnwys oddi fewn i adroddiad yr Ymddiriedolwyr.